

ECO'R WYDDFA

RHIF 41

HYDREF 1979

Pris: 12c

Fel Rhosyn Bach



Dyma Amanda Jane Molomey, 8 Bro Rhuddallt, Llanrug a enillodd gystadleuaeth 'Miss Rosebud' yng nghastell Biwmares yn ddiweddar. Mae'r gystadleuaeth hon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r 'Majorettes' yn agored i enethod o dan 11 oed. Dim ond 3½ yw Amanda, ond hi oedd yr orau gan y beirniad. A phwy all ddadlau efo'r penderfyniad yntê? Gwenodd yn braf i ffotograffydd yr Eco pan glywodd bod ei llun am gael ei anfon i'w thaid sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn Angola, Affrica.


LLWYDDIANT ARALL YN Y GENEDLAETHOL

Ein ymddiheuriadau i Mr Dilwyn Gray-Williams, Castell Bryn Bras, Llanrug. Ni chynhwyswyd ei enw ymhlith ein chwythwyr, adroddwyr, cantorion, llenorion a'n dawnswyr buddugol yn y Genedlaethol yn y rhifyn diwethaf. Serch hynny mae ein llongyfarchiadau yr un mor wresog iddo yntau. Enillodd y gystadleuaeth bensaernïol agored ynghyd â gwobr o £100 am gynllunio man cynnull dan do yng nghastell Caernarfon ar gyfer aml bwrpas.



(Gweler hefyd 'Llyfrau' tudalen 11)

HEN WŔ O'R MÔR



Nid yn aml mae rhywun yn clywed am greadur mor ffyrnig yr olwg â'r cimwch sydd yn y llun yn ildio'n ddiniwed i'w ddalwyr. Ond 'henaint ni ddaw ei hunan' ac mae'n amlwg mai cymryd ei ddal a wnaeth hwn. Daeth tri 'sgotwr ifanc o Fethel o hyd iddo'n ddiymadferth yn y gwywn o dan bont Menai, wedi ei olchi yno, mae'n debyg ar lanw uchel.

Yn y llun gyda'u dalfa mae Brian Lewis (y cyntaf i weld y cimwch), Colin Roberts a Glyn Jones.


I'r rhai ohonoch sy'n hoffi cadw cofnodion, 'roedd y cimwch yn pwyso 8½ pwys. Ydi hon yn record am gimwch yn y rhan hon o Gymru tybed?

PLANT YSGOL BETHEL YW'R CYNTAF.



Miss Lowri Prys Roberts gyda dosbarth o blant o Ysgol Bethel y tu allan i Angorfa, Llanberis. Dyma'r grŵp cyntaf o blant i ymweld â chartref T. Rowland Hughes ers ei agor i'r cyhoedd. Bydd llawer mwy yn sicr o ddilyn eu hesiampl. Llun: I. Jones

Arwydd o'r Amserau



Ble arall basach chi'n disgwyl cael marchnad ar y Sul?

ECO'R WYDDFA

RHIF 41 HYDREF 1979

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Nant Peris

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFF-
REDINOL:** Twrog Jones, 23 Glan-
fynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon
3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Eildir, Llanberis
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant. (Wauwfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glangfynnon, Llan-
rug (C'fon 4669)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (Caer-
narfon 3776).

FRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones,
58 Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST :
Mrs. M. Evans, "Lloc", Llanrug.
(C'fon 3 227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth,
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones,
Bryn Tegid (Wauwfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Wau-
fawr 321)

CWM-Y-GLO: Mr. Dafydd Price,
Ty Capel, Cwm-y-glo. (Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones, Minafon
Clwt-y-bont. (Llanberis 452).

DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro
Eildir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humph-
reys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glangfynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

DIOLCH

Diolchwn i'r canlynol am eu rhoddion
hael tuag at y gost o gynnal yr Eco.

£2. Mr Colin Davis Chesterfield,
Mr P.W. Williams, Corby, Brawd o'r
Nant.

£1. Di-enw, Deiniolen, Di-enw,
Prestatyn.

£1. Mrs Beryl Griffiths, 5 Maen
Gwylfa, Clwt-y-bont.

£2. Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes
Eilian, Dinorwig.

LLYTHYRAU

Carn y Ceffyl

Annwyl Olygydd,
Dyma ateb i gwestiwn Mr Harri Jones,
Tŷ Uchaf, Ceunant, ynglŷn â'r cyrn a
welir ar yr ochr fewnol i goesau
ceffylau. (Rhifyn Medi o'r Eco).
Mae'r diolch am yr esboniad i'r Ffariar
Hugh Geraint Williams, Pontllyfni,
ond ceislaef ateb y cwestiwn yn yr un
modd ag y gofynnwyd ef, — sef mewn
penillion.

"Mae gennyf droed, — 'does Harri,
A phump o fodiau arni
Er caeth mewn esgid mae trwy'r dydd
I symud, mae'n beth handi.

Dy law sydd 'run mor glyfar,
Un bawd, a'r bodiau'n bedwar,
Heb hon ni ellir crafu pen.
Mae'n declyn dra dyfeisgar.

Yn Eden mewn gwirionedd
'Roedd gan y merlod fyseidd,
Ond wrth eu gweld yn pori'r maes
Cymerodd Duw drugaredd.

Un bys yw'r carn 'rwy'n credu,
Tri arall sydd wedi gwynnu
A'r corn sy'n tyfu ar ei goes,
Yw'r bawd sydd heb ddatblygu.

I chwi sydd â'ch problemau
Ac angen ymholiadau,
Anghofiwch am y Bi Bi Ec,
Mae'r Eco'n well ar brydiau.

Gelwir y 'cyrn' yn "Chestnuts" gan
y lluoedd sydd yn darllen y cylchgrawn
'Horse & Hounds'. Tybed a fyddai'n
briodol i drigolion bro Eco'r Wyddfa
eu galw yn 'Gorcnyrs'?

Yr eiddoch yn gywir,
Miriam Hughes,
Rallt Deg,
Cwm-y-glo,
Caernarfon.

Wedi gweld cwestiwn Mr H. Jones,
Ty Uchaf, Ceunant yn yr Eco am fis
Medi.

'Beth sy'n gyfrifol am y cyrn a welir
ar yr ochr fewnol o goesau blaen ac ôl
ceffylau?'

Yr wyf yn cynnig yr ateb a ganlyn:
Os gwelsoch ebol newydd ei eni ac
wedi codi ar ei draed, mae o yn heglog
ac yn afrosgo, fel pa bai ei goesau ddim
yn perthyn iddo, fel dyn ar ffyn
baglau. Cyn ei eni y cyrn yma sy'n
cadw trefn ar ei goesau pan mae ei
fam yn ei gario; fel y sylwch mae y
cyrn gyferbyn â'i gilydd, ac o asio y
ddau yn ei gilydd yn gwneud cwplws
i gadw ei goesau mewn trefn mewn
lle bychan. Mae wyth o'r 'Cyrn' i
bob ceffyl, pedwar yn weledig ar
pedwar arall y tu fewn i'r fachen.
'Does dim pwrpas i'r cyrn wedi geni'r
ebol.

R.O. Pritchard.

DAW Y
RHIFYN NESAF ALLAN
TACHWEDD 1af

Y DEUNYDD I LAW'R
GOLYGYDDION
HYDREF 24ain

ANFEIDROL DDUW RHAGLUNIAETH

Annwyl Olygydd,
'Rwyf yn ddarllenwr cyson o Eco'r
Wyddfa, ac yn cael mwynhad wrth ei
ddarllen yn enwedig erthyglau ar hen
hanesion.

'Rwy'n siŵr eich bod chwithau fel
awdur yn cymryd diddordeb mewn
awduron o bob math, ac wrth wrando
ar y Gymanfa Ganu o'r Pafiliwn un nos
Sul, a gwranddo ar yr emyn 'Anfeidrol
Dduw Rhagluniaeth' yn cael ei darllen
a'i chanu, meddyliais hwyrach y
buasech chwi yn hoffi gwybd paham
a pha fodd y cyfansoddwyd yr emyn i
ddechrau.

Fel y gwyddoch, Gwyneddon (gŵr
amlwg iawn yng Nghaernarfon ar
ddiwedd y ganrif ddiwethaf) oedd ei
hawdur.

'Roedd ef yn gyfaill mynwesol i fy
nhaid William Owen Prysgol, ac arferai
ymweld â Phrysgol yn bur aml
(cerdded o Lanbeblig fel rheol).

Un diwedd haf cyn i fy mam briodi
daeth am dro i Brysgol. Tra'r oedd hi
a'i chwaer yn paratoi te i'r ddau ar
fwrdd crwn wrth y tân clywsant y
ddau yn siarad â'i gilydd fel a ganlyn
Meddai fy nhaid — "Mae arnaf i eisiau
i chwi wneud emyn i mi ar gyfer
dydd Diolchgarwch".

Atebodd Gwyneddon, "Fedrai ddim,
nid wyf erioed wedi mentro gwneud
emyn, dim ond dipyn o farddoniaeth
ysgafn".

"Mae'n amser i chwi ddechrau, ta,"
meddai fy nhaid, "mae'n rhaid imi gael
emyn gyfaddas i'w chanu yn y capel".

Felly y bu, aeth Gwyneddon adref,
a thrannoeth aeth am dro ar hyd y
Caeau Bach gerllaw Llanbeblig.
Gwnaethbedwar.pennill yn sydyn iawn.
Ar ei ffordd adref cyfarfu ag
Anthropos. Dangosodd yr emyn iddo.
Wedi ei darllen yn ofalus, dywedodd
Anthropos wrtho am 'dwitio' dipyn
arni. Gwnaeth yntau hynny ac yn ei
chylfwyno i fy nhaid.

Cyfansoddodd yntau Anthem-dôn ar
y geiriau. Yn fuan iawn daeth aelodau
eglwys Caeathro yn gyfarwydd â'r
dôn, a chenid hi bob dydd
Diolchgarwch tra bu fy nhaid yn fyw,
ac yn arweinydd y gân yn y capel.

Yn gywir,

H. Roberts,
Bod Idris,
Wauwfawr.

Y BADELL FFRIO

(Cân i un o wŷr yr 'Herald')

Aeth Wyn a'r wraig rhyw fore
Bank Holiday yn yr haf
I 'Asda' yn Llandudno
I brynu padell braf.

Bu cyrraedd yno'n brydlon
A rhoi y car mewn stôl,
Brasgamu am y storfa
Cyn codi Saeson ffôl.

Tra Catherine oedd yn chwilio
Am fargen, bron am ddim
'Rhen Griffis welodd badell
Non-stick, y Very Thing.

'Black Diamond' oedd ei make
A 'Teflon' oedd y crai,
Ac ar y lebal canmol
Bron bopeth ond ei bai.

Daeth ato lodes handi,
Medd Wyn, "A gaf y bil?"
'I'll wrap it up, my darling,
You settle at the till"

'Rôl crafu rhyw fân bethau
I'r faged aeth y loot,
A rhain a'r badell loyw
Trwy Gonwy yn y boot.

Trwy Benmaenmawr ac Aber,
Ymlaen i Landegai,
Tan Fron yn hir yn dyfod
I'r badall i gael 'fry'.

'Does wy na chaws yn sticio
Ar waelod gloyw hon.
Mae popeth 'nawr yn llithro
I'r platiau yn Tan Fron.

Ac os bydd i chwi alw
Yn Tan y Fron tua deg,
'Rhen Griffis welwch yno
Â saim ar hyd ei geg.

A chwithau, os bydd angen,
Un debyg arnoch chwi;
Yn 'Asda' yn Llandudno
Pen-draw ar gowntar three.

Hugh Thomas,
Llanrug.

MODURDY MENAI




FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



PIGION O DDYDDIADUR

JOHN EDWARDS

'Refail, CROES-Y-WAEN

Torri tywarchen Eglwys Waunfawr gan Squire Glynafon Awst 12, 1878. Gwasanaeth cyntaf, Mai 3, 1880.

1886: Tywydd sych iawn ers dechrau Mawrth; gwres a phrinder dŵr mawr ym mhobman. Ni welwyd ei debyg ers deugain mlynedd.

Tynnu trwydded Tŷ Tafarn Croes-y-waun Hydref 1891. Carreg yn llithro o fynydd Drwsy-coed ar y capel a'i falurio Chwefror 17, 1892.

Mr a Mrs Gladstone yn mynd gyda'r trên bach trwy'r Waunfawr i agor llwybr o Ryd Ddu i ben yr Wyddfa a phlant yr ysgol yn cael mynd i'r Stesion i'w gweld, Medi 12, 1892.

Dod â'r teliffon cyntaf i'r Swyddfa Bost yn Waunfawr, Ebrill 14, 1894.

Torri tywarchen y rheilffordd i ben yr Wyddfa ddydd Sadwrn, Rhagfyr 15, 1894 gan Ashton Smith.

Tymestl fawr o eira a rhew Sadwrn a Sul, Ionawr 12, 13, 1895. Methu symud dim am 6 wythnos.

Dydd Llun y Pasg Ebrill 6, 1896 digwyddodd damwain ar lein yr Wyddfa, sef dydd ei hagogiad o ben Clogwyn Coch — un yn colli ei fywyd ac ugain yn brifo.

Streic fawr y chwareli Medi

28, 1896, ailddechrau gweithio Medi 1, 1897 wedi bod ar streic am un mis ar ddeg. Llawer iawn o dlodi, a phopeth yn ddrud — menynt yn 1/- y pwys; glo yn 1/6 y cant; siwgr yn 2 geiniog y pwys.

Ysgol Sul Llanberis yn mynd ar wibdaith i Bwllheli. Rhai yn mynd ar y môr a 14 ohonynt yn boddi, Gorffennaf 1, 1899.

Trychineb ym Mhenmaenmawr — trên yn mynd dros y dibyn a'r gyrrwr a'r taniwr yn boddi, Ionawr 12, 1899.

Agor ysgol ganolraddol yng Nghaernarfon, Chwefror 19, 1894 Ailgychwyn rheilffordd yr Wyddfa, 1897.

John Williams ac Owen Williams, Bryncelyn yn cychwyn i Affrica i'r gwaith aur ddydd Sadwrn, Ebrill 8, 1899 ac yn cyrraedd yno Medi 1.

Agor Pont dros yr Aber, Mawrth 1, 1900.

Y Frech Wen o gwmpas Caernarfon a'r cylch ac adeiladu ysbyty ar gae Pen y Cefn ar ei chyfer, Hydref 1900.

'Old Age Pension' yn dechrau Ionawr 1908.

'Marconi Wireless Station' yn cael ei hadeiladu ar fynydd Cefndu 1913.

Dr. Hughes, Waunfawr yn prynu motor car cyntaf, Ionawr 1912.

Y 'Spanish Flu' yn y wlad — cannoedd yn marw bob dydd, 1918.


Mrs K. Hughes, Llysmereydd.



Digon O Sioe

Martin Roberts, Glascoed Hall, Llanrug gyda'i Gwningen 'Dutch' — yr orau yn Sioe Gwningod Llanrug a gynhaliwyd yn ddiweddar. Mae Martin, sy'n 11 oed, wedi bod yn cadw cwningod am bedair blynedd ac nid dyma'r tro cyntaf iddo ennill. Mae wedi ennill yn Sioe Caernarfon a Sioe Porthaethwy.

Bu sioe Llanrug yn un hynod lwyddiannus y flwyddyn hon eto. Daeth y cystadleuwyr o bell ac agos ac arddangoswyd dros gant o gwningod.



AR WERTH

8 Tai Gweledfa, Deiniolen

Tŷ bychan hwylus mewn rhes heb fod ymhell o ganol y pentref. Dwy ystafell i lawr a thair i fyny yn cynnwys bathrwm. Angen cegin newydd yn y cefn.

Ffonier : Bethesda 600423

'DOES DIM RHAID CHWILIO YMHELL

DEWCH I BETHEL I WELD Y

Marina



CAR DA, DIOGEL
DIBYNADWY. BRITISH
LEYLAND AR
EUGORAU!
GWARANT
12 MIS — FAINT
BYNNAG A
DEITHIWCH

MAE GENNYM
GEIR AIL LAW
RHAGOROL
HEFYD!

GAREJ MINFFORDD



Morris

BETHEL

PERCHENNOG T.R. & S. EVANS
FFÔN
Y FELINHELI 670 451

LLANRUG

Y GYMDEITHAS UNDEBOL — Agorir y tymor gan Barti'r Grug o gangen Merched y Wawr, yn festri Ponrhythallt ar Hydref 23. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb ymuno â'r Gymdeithas. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu a gobeithir cael cyfarfodydd llewyrchus.

Y swyddogion yw: Llywydd — Mrs M. Lloyd Williams, Llys Awen; Trysorydd — Mr Emrys Owen, 41 Bro Rhyddallt; Ysgrifennydd — Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar.

Y MAJORETTES — Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Majorettes yn y Sefydliad Coffa, nos Lun, Hydref 1 am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Os oes genethod, (o 5 i fyny) o fro'r Eco â diddordeb mewn ymuno â'r dawnsywyr mae croeso iddynt wneud hynny. Cysyllter â Mrs M Mc Guinness, Ardwyn, Llanrug.

MARW — Ar Awst 29, bu farw Mr John Jones, 17 Glanmoelyn. 'Jac Penrhwi' y gelwid ef gan ei gyfeillion. 'Roedd yn enedigol o'r pentref, yn fab i'r diweddar Robert Catherine Jones, Tan-y-castell. Bu'n gweithio yn Chwarel Dinorwig am dros ddeugain mlynedd, ond yn wael ei iechyd ers pedair mlynedd ar ddeg bellach. Cynhaliwyd gwasanaeth i'r teulu yn y tŷ, gyda gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Sant Mihangel. Gweinyddwyd gan y Rheithor, Y Parch D.G. Williams a'r Parch W.O. Roberts. Yr organyddes oedd Mrs L.E. Owen, Glasdy.

Estynnir ein cydymdeimlad llwyr af â'i weddw, Mrs Mair Jones, a'r teulu i gyd yn eu colled fawr.

CYDNABOD — Dymuna Mrs Mair Jones a'r teulu, 17 Glanmoelyn ddatgan eu diolchgarwch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i gydweithwyr John Richard yn 'Wellington Pool', Chwarel Dinorwig.

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Medi 11. Miss Phyllis Ellis oedd yn y gadair. Y siaradwraig wadd oedd Mrs Buddug Lloyd Roberts, Cricieth a'i phwnc oedd Alawon Gwerin.

Llongyfarchwyd Ann Llwyd ar ennill yn yr Eisteddfod yng Nghaernarfon. Hefyd, parti Merched y Wawr ar eu perfformiad canmoladwy 'ar Lafar ac ar Gân'. Mae rhai o'r aelodau yn aelodau o seindorf arian Llanrug a enillodd y wobwr gyntaf.

Diolchwyd gan Mrs Mary Roberts, Bedw Gwynion, a ganodd y gân groeso i'r Cymry alltud ar ddydd Gwener yr Eisteddfod.

Bydd y cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth o Hydref yn yr Ysgol Gynradd. Y siaradwr gwadd fydd Mr Gwynfor Williams, Llanberis. Croeso i aelodau newydd ymuno.

PLAID CYMRU — Bydd cangen Llanrug o Blaid Cymru yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn y Sefydliad Coffa ym mis Hydref, pan ddisgwylir

yr Aelod Seneddol, Mr Dafydd Wigley i siarad. Gwyliwch am bosteri yn rhoi'r dyddiad.

NEWYDDION Y SEINDORF — Ar Fedi 9, aeth aelodau'r Seindorf ar daith gerdded noddedig i ben yr Wyddfa. Diwrnod niwlog iawn oedd hi, ond er hynny bu'r fenter yn llwyddiannus, a chyraeddasant y copa yn ddiogel. Aeth yr offerynnau i fyny ar y trôn bach o'u blaenau, ac wedi tipyn o seibiant, chwaraeodd y Seindorf ddwy neu dair o eitemau ar y copa. Hwy yw'r Seindorf gyntaf i wneud hyn.

Y Sadwrn canlynol, Medi 15, yn Whitchurch daethant yn drydydd allan o un ar ddeg o fandiau mewn cystadleuaeth dda. Maent i'w llongyfarch ar eu llwyddiant. 'Nawr, maent yn barod i aildechrau ymarfer ar gyfer cystadlaethau eraill a fydd yn cymeryd lle ym mis Tachwedd, sef Pontins, Prestatyn a Cei Connah.

LLWYDDIANT CERDDOROL — Llongyfarchion i Einir Parry, Morwel, Ceunant ar ei llwyddiant mewn arholiad canu'r piano (Gradd 3) ac i Keith Jones, Dwyros mewn arholiad theori (Gradd 4). Eu hathrawes yw Mrs Roberta Griffith, Bodolwy, Llanrug.

GENI — Llongyfarchidau i Mr a Mrs Gwynford Humphreys, Rhoslan, Minffordd, ar enedigaeth merch fach, Delyth Wyn.

BEDYDDIO — Bore Sul, Medi 2, yn y Capel Mawr, bedyddiwyd Catrin Eleri, merch fach Mr a Mrs Howyn Jones, Dolwyn, Glanffynnon.

Pnawn Sul, Medi 16 yn y Capel Mawr, bedyddiwyd Alan Wyn, mab bychan Leslie a Carys Parry, Gwynant. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts.

GWIBDAITH CAPEL MAWR — Dymunwn ddiolch yn gynnes iawn i'r athrawon a drefnodd driip y plant i Rhyl, ddydd Sadwrn, Medi 9. Llauer o ddiolch iddynt am eu parodrydd diflino. Cafwyd trip dymunol iawn a phawb wedi mwynhau eu hunain.

COFIO CYFAILL — Dydd Sadwrn, Medi 1, cynhaliwyd gwasanaeth byr yn y Capel Mawr i dderbyn plac er cof am y diweddar Robert Morris Williams, Derlwyn a fu'n flaenor yn yr Eglwys. Rhoddwyd a dadorchuddiwyd y plac gan ei gyfaill Mr Adrian du Plesse, Johannesburg. Gwasanaethwyd gan y gweinidog y Parch W.O. Roberts. Diolchwyd i Mr du Plesses am ei rodd ynghyd â rhodd arall sef copiâu o Feibl y Plant. Cynlluniwyd y plac gan Mr Gwilym E. Jones, Gorwel.

RHODD — Ar achlysur eu hymadawiad o'r Tŷ Capel cyflwynwyd Llyfr Emynu at wasanaeth y Capel Mawr gan Mr a Mrs Ifan Roberts. Dymunodd y Parch W.O. Roberts dymuniadau gorau yr aelodau iddynt, a diolch am eu gwasanaeth yn ystod eu arhosiad yn y Capel Mawr.

LLONGYAFCHWN — blant yr ardal ar eu llwyddiant yn y gwahanol arholiadau. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

Hefyd i Mrs K. Davies, 21 Bro Rhyddallt a enillodd ddwy wobwr gyntaf yn adran coginio, Arddangosfa Flynyddol Carmel. Hefyd enillodd ei wyres a'i wŷyr, Gwenan a Gwynedd o Garmel y wobwr arbennig yn adran y plant. Cyflwynwyd tarian iddynt am eu casgliad o flodau gwylltion wedi eu sychu.

CYNGOR EGLWYSI LLANRUG — Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor uchod nos Lun Medi 10 i drafod mater y farchnad a gynhaliwyd ddydd Sul Medi 9 ar Barc Bailey Llanrug.

Pasiodd y Cyngor yn unfrydol eu bod yn gwrthwynebu'n gryf cynnal marchnad fel hyn ar y Sul, gan ei bod yn gwbl groes i draddodiad yr ardal, ac yn tarfu ar heddwch y trigolion. Mae marchnadoedd o'r fath ar y Sul yn rhoddi esiampl ddrwg i blant yr eglwys, ac y mae'r sefyllfa gymaint â hynny'n waeth yn y cyswllt yma, gan fod Parc Bailey yr ochr arall i'r ffordd, a bron gyferbyn â Hen Ysgol Glanmoelyn, lle cynhelir Ysgol Sul yr Eglwys yng Nghymru.

Yr oedd y Cyngor hefyd yn ymwybodol bod yna agweddau eraill i beri pryder, megis trafndiaeth drom, iechyd y cyhoedd, a buddiannau masnachwyr y pentref; ond bod eu gofal hwy yn bennaf dros yr agwedd foesol a chrefyddol.

Deillir mai gan Gyngor Bwrdeisdref Arfon y mae'r gallu i rwystro marchnadoedd o'r fath, a thaer erfynnir ar y Cyngor a'i Swyddogion i symud ymlaen ar fyrder i roddi terfyn arnynt.

CRONFA RIGARUG — Dymuna Pwyllgor Cronfa Rigarug ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuant i bentrefwyr Llanrug am eu hymateb a'u cefnogaeth ragorol i basio'r nod o £3,750 a chyfrannu £4,200 tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch.

NOS WENER, Hydref 19, Disgo, Cyw a Sglodion yng Ngwesty Victoria Llanberis. Yr elw i gronfa Pwllmoelyn, Llanrug.

Eisteddfod Gadeiriol Llanrug

Mae'r trefniadau'n prysuro at gynnal Eisteddfod lwyddiannus ym mhentref Llanrug ar bawn a nos Sadwrn, Hydref 27. Edrychwn ymlaen at groesawu ffrindiau o'r pentrefi cyfagos i gyd-fwynhau'r achlysur. Mae'r rhaglenni allan o'r wasg ers tro ac os na chawsoch un wrth eich drws maent ar werth yn y siopau lleol.

Bydd Noson Goffi'n cael ei chynnal yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Hydref 2 am 7 a bydd y pwyllgor yn ddiolchgar am unrhyw roddion tuag at y gwahanol fyrddau gwerthu.

TAN-Y-GOED

LLONGYFARCHIADAU — I Carol Ann Jones, Pant Clyd ac i Enid Wynne ar eu llwyddiant yn yr Arholiad lefel 'O' eleni.

Hefyd i Mrs Blodwen Hughes, 1 Tai Trefor a Mrs Megan Williams, Dwyfor, y ddwy wedi cael wyres fach yn ddiweddar.

DYMUNIADAU GORAU — I Mrs Dorothy Williams, Pant-y-bryngwyn sydd newydd symud i fyw i Gaernarfon.

Chwith colli Mrs Williams o'r ardal wedi blynnyddoedd maith o drigo yma.

O'R YSBYTY — Croeso adref i Mr Arthur Evans, Terfyn. Da ei weld wedi gwella.

Hefyd i Mrs M.E. Shelton Tanycoed Cottage. Erbyn hyn mae Mrs Shelton, oherwydd llesgedd a dallineb yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser gyda'i merch, ond yn manteisio ar bob cyfle i ddod yn ôl i'w hoff fwthyn. Da ei gweld yn edrych mor dda.

PROFEDIGAETH — ddaeth i ran mwy nag un teulu yn yr ardal yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â theulu Cartref — wedi colli brawd-yng-nghyfraith ac ewythr Mr Arfon Jones, Y Felinheli.

Mrs Pitts, Caerweddus a Brian wedi colli priod a thad — Mr William Pitts.

Ym marwolaeth Mrs Nellie Thomas, 1 Tai Bryngwyn colodd Mr Owen Wyn Thomas briod a Brenda ac Allan fam, Mrs Kathleen Jones, 2 Maesgerddi chwaer, a theulu Bronant chwaer-yng-nghyfraith.

Derbyniwch oll ein cydymdeimlad cywriaf â chwi yn eich colled.

CROESO — I'r pâr ieuanc sydd wedi dod i fyw i Min-y-parc — croeso cynnes i Mr a Mrs V.J. Pritchard i'r fro. Pob hapusrwydd i chwi yn eich cylch newydd, a'n llongyfarchiadau i chwi ar ddathlu eich priodas yn ddiweddar.

AR WERTH

Côt aeaf frown
i ddyn gweddol dal
BARGEN AM £10

Caernarfon 3577

**Cefnogwch
Ein
Hysbysebwy**

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist


**MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!**



Seindorf Arian Llanrug ar gopa'r Wyddfa.
Llun trwy garedigrwydd Caernarfon & Denbigh Herald.

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Wedi prysurdeb dwy flynedd dyna 'Steddfod 79 ymhlith yr hyn a fu. Cafwyd gŵyl hapus a llwyddiannus yng Nghaernarfon er gwaethaf cadair wag ac ambell i gawod o law.

Cyfeiriwyd eisoes yn yr Eco at lwyddiant amryw o'r fro hon ym myd cerdd, adrodd a llên. Balch iawn oeddwn o glywed am eu llwyddiant — rhai yn amlwg wedi bod wrthi'n brysur yn cyfansoddi yn ystod misoedd y gaeaf.

Ydy, mae'r 'Steddfod Fawr trosodd, ond mae tymor y 'Steddfodau bach ar gychwyn. A'r steddfodau hyn wedi'r cyfan sy'n bwysig. Dyma'r steddfodau sy'n bwydo'r brifwyl, ac heb 'steddfodau'r mân bentrefi byddai'n amhosibl cynnal ein prifwyl genedlaethol ynflynnyddol.

Mi fyddai'n meddwl yn aml wrth edrych ar ambell i bwysigyn ar lwyfan y genedlaethol, a'i frest yn glwstwr o fathodynau — mewn faint o 'steddfodau bach y bu mei naps yn ystod y flwyddyn? Oes, 'rwy'n siŵr fod na amryw o wŷr 'pwysig' — 'eisteddfodwyr pybyr' yn hawlio eu cadair anrhydedd ar lwyfan y brifwyl yn flynyddol — a dyna'r unig 'Steddfod o un pen i'r llall.

Mae'r un peth yn wir am y 'Cup Final' medda' nhw — miloedd yn cael y seddau gorau (ac amryw heb dalu'r un ddimau) yn Wembli ac heb fod mewn 'run gêm bêl-droed drwy gydol y gaeaf.

Gobeithio na fydd i'r ysfa am weithgarwch eisteddfodol farw yn y broydd hyn, ac y gwelwn yn sgîl yr Eisteddfod Genedlaethol sawl 'hen' steddfod yn ailgychwyn, ac yn mynd ymlaen o nerth i nerth. 'Rwy'n dal yn hyderus y gwelwn ni sefydlu Eisteddfod Eco'r Wyddfa yn y dyfodol agos.

* * * *

'Rwyf wedi sôn fwy nag unwaith fod llwyddiant colofn fel hon yn dibynnu arnoch chi'r darllenwyr. Ychydig o gerddi sy'n dod i law, a gellir cyfri'r cyfranwyr selog ar un llaw.

'Rwy'n siomedig hefyd yn ymateb plant i sawl cais a wneuthum am gerddi ar destunau gosodedig, — stori neu gân.

Ar gychwyn y Gaeaf fel hyn, a gaf i apelio at athrawon i annog y plant i 'sgrifennu'n greadigol ac i anfon pytia i'r Llannerch o dro i dro.

A chwithau oedolion — anfonwch air i mewn. Peidiwch ag anfon cerddi rhy hir, cerddi

byr cynnil os gwelwch yn dda.

I gloi dyma ddwy ymgais ddiddorol i led-gyfieithu cerddi gan un o ffyddloniaid y golofn Enid Jones o Dalysarn.

Hwyl tan y tro nesa', ac apeliat arnoch i gadw llidiart y Llannerch ar agor.

RHYFEDDOL RAS

(Amazing Grace)

Am ras fy Nuw rhof ddiolch llawn
Yn achub un mor ddu;
O'm crwydro ffôl, fe'm dug yn ôl
I mewn i'r gorlan gu.

Mewn ofn parhaus fy enaid oedd,
Heb obaith yn y byd—
Ond gras fy Nuw fu'n gymorth gwiw
I ymlid f'ofnau i gyd.

A thrwy beryglon o bob rhyw
Dihangol wyf hyd hyn.
Ei ryfedd rasol gariad Ef
A'm tywys trwy y glyn.

'Mhen mil o filoedd bydd ei ras
A'i gariad yn parhau;
Canmolwn ninnau gyda blas
Y rhyfedd ras, di-drai.

Enid Jones,
Bryn Gelli,
Talysarn.

Wedi ei seilio ar *The Hills are alive* —
allan o *The Sound of Music*.

HIRAETH AM FRO

Distawodd fy nghân, aeth bywyd yn
boen i mi—
Ni chwarrddaf yn awr, ar ôl im dy
adael di.

Mae hiraeth o hyd yn aros,
Am droedio'r hen lwybrau fel cynt.
D'wéd y caf ddod yn ôl unwaith eto
I hedd y grug, a'r rhedyn crin
I glywed cân y gwynt.

Mae'r creigiau yn fyw gyda eco'r
gwanwyn,
A'r gân, er yn hen, eto'n llawn o sbri.
Mae natur yn llon ac yn llenwi

'nghalon
Gan wneud i mi ganu a dawnsio'n
ffri.
Mae nghalon yn curo wrth weled
ehedydd

Yn codi o'r ddôl hyd y nef;
Neu wrando ar furmur yr afon fach
Ar ei thaith tua thref.
Mae nghalon yn llamu wrth weled
y pistyll

Yn disgyn fel cynt —
Ond amser ni saif, ehed ymaith ar
adain y gwynt.

Dychwelaf yn ôl pan mae'r galon
drymaf
I heddwch y creigiau o'n crwydro ffôl.
Caf yma bryd hyn ryw dawelwch
rhiniol

Ddaw â'm cân yn ôl.
Enid Jones

WAUNFAWR

LLONGYFARCHIADAU — I Iris Hughes, Tref Eilian ar ei phriodas â Mr Keith Owen o Gaeathro. Bydd y ddau yn cartrefu yn Nhŷ Capel Bethel, Waunfawr. Croeso i Keith i'n plith a dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau.

I Mr a Mrs O.T. Jones, Bryn Gwenallt, ar fod yn daid a nain. Ganwyd mab i'w merch Eryl a'i gŵr Michael.

I'r canlynol ar lwyddo mewn arholiadau cerddoriaeth: Jenny Walters, Y Llythyrdy; Siân Davies, Dôl Gwyrffai; Gareth Jones, Glyn Ceris; Joanne Weale, Ty'n Twll Bach; Simon Roberts, Tŷ Hen; Mrs Joyce Benham, The Haven a Nicola Roberts Tŷ Hen.

GWERTHFAWROGIAD — Dymuna Mr a Mrs Alfie Jones, Cynant Lodge ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab Gerallt Arfon.

YN YR YSBYTY — Dymunir adferiad buan i Mr T.E. Jones, Cartrefle sy'n ysbty Broad Green, Lerpwl.

O'R YSBYTY — Croeso adref i Mrs Vaughan Jones, Hafod y Coed, Mr Hugh Morris Thomas, Bro Waun, a Mrs C. Williams, Dolwar Fach.

CYDYMDEIMLWN — â Mr G.J. Roberts, Llys Helen ar golli ei fam, Mrs Miriam Jane Roberts, Llwyn

Celyn a Mr Edwrad Vaughan Hughes Cae Main ar golli ei dad, Mr John Hughes. Hefyd bu farw Mrs Owens Glennydd yn sydyn iawn a chydymdeimlir â Mr Owen, Emrys a Falmai ar golli priod a mam.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Medi 6. Croesawodd Mrs Katie Jones, y llywydd, yr aelodau i'r Sefydliad ar ôl gwyliau'r haf. Croesawodd hefyd Mrs Idris Jones yn ol ar ol ei gwaeledd. Llongyfarchodd Mrs O.T. Jones ar enedigaeth wŷr bach a hefyd llongyfarchodd Mrs Peggy Jones ar lwyddiant ei gŵr yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cafwyd arddangosiad o fwydydd anghyffredin gan Mrs Hughes o Goleg Glynllifon, y wraig wadd. Diolchodd Mrs Nessfield. Enillodd Mrs Morgan Jones y raffl a roddwyd gan Mrs V. Williams.

Cynhelir cyfarfod nesaf yn yr ysgol nos lau, Hydref 4, pan fydd Dr N Roberts yn trafod 'Damweiniau yn y Cartref'.

CLWB CANT WAUNFAWR
Mehefin 1. 31: Jean Jones, 2. 10: Beryl Jones, Dôl y Coed, 3. 40: Rhodri Prys Jones.

Gorffennaf 1. 12: Ifanwy Rhisiart, 2. 50: Mr a Mrs E.LI Hughes, Treflan Isaf, 3. 1: Siôn Rhys Jones.

DOSBARTH TAITH Y PERERIN, BETHEL M.C.



Rhes Uchaf — Chwith i'r dde: Philip Jones, Bryn Tawel, Mr W. Humphries Jones, Glanfa.

Ail Res — Owen Morris: Mr Robert Jones, Ty'n Gadlas; Mr John Evans, Priory; ac wedyn Llys Arfon, Llanrug; Mr Owen Evans, Priory; Mr Eddie Davies, Ty Gwyn; Roberts Evans, Manchester House; Mr Roberts Jones, Cae Caled (mab). Trydydd Rhes — Mr Parry (Tad Mr W. Parry, Tŷ Capel, Bethel); Mrs Nell (Phillip Jones) Hughes, Fron Hyfryd; Miss Ann Ellis, Bryn Eirian, Mr John Hughes, Fron Hyfryd; Meurig Owen, Parc; Mr Hugh Jones, Cae Caled (tad).

Rhes Isaf — Mrs Jane Winifred Jones, Bryn Eirian; Mr Owen Jones, Bwlch Ffordd (tad John Leathley); Mrs Rev Lewis Williams, Bryn Teg; R.W. Lewis Williams, Bryn Teg; Mr O. Owens, Bwlch Ffordd (Cynhyrchydd electric); Mrs H. Eunice Davies, Ty Gwyn (Glanfa), Mr John Williams, Butcher, Pant-y-defaid, Mrs Capt. Ellis, Bryn Eirian.

YN EISIAU

Hen Lyfrau Cymraeg

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

TEITHIO'R CYFANDIR

Pleser unwaith eto ar fy rhan yw cael cyfrannu at y rhifyn misol o Eco'r Wyddfa yma o Ysgol Brynrefail, ar ôl gwyliau bendigedig. Rhaid cyfaddef bod yr ysbaid o wyliau'r haf wedi dod fel awel ffres ynghanol miri'r arholiadau, a bod y triplau a drefnwyd yn ystod gwyliau'r haf ar gyfer plant o'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus dros ben.

Trefnwyd ymweliad â'r Eidal gan Mr G. Parry, yr athro cerdd, a bu yntau a'r disgyblion ar nifer o driplau bythgofiadwy yno. O'u gwesty yn Levico Terme buont ar daith i Venice i weld y gwaith gwydr enwog yn Murano, a hefyd cawsant ymweld â'r Dolomites a chael mynd i ben y Marmaloda sef ynnydd uchaf cadwyn y Dolomites. Yn ôl Mr Parry 'cafwyd amser pleserus dros ben'.

Nid llai oedd y canmol ar y trip ynys Majorca a drefnwyd gan Mr J. Lloyd a Mr A. Fleming. Arhosent hwythau a'r plant dan eu gofal ym Mhalma Nova am ddeuddeg diwrnod a chael y cyfle i ymweld â phob rhan o'r ynys tan awyr las a heulwen haf.

CROESO

Cyn mynd ymhellach rhaid i mi groesawu'r dosbarth cyntaf i'r ysgol, yn ogystal â'r pedwar athro newydd sydd wedi ymuno â staff yr ysgol. Mae tri ohonynt sef Mrs Carys Jones, Mr B. Hughes a Mr G. Owen yn dod o Lanrug a'r pedwerydd Mr Reginald B. Roberts o Gaernarfon. Gobeithiwn y bydd eu gyrfa yn yr ysgol yn un hapus a phleserus iawn.

BLASU BYWYD COLEG

Yr oedd hefyd yn gyfnod prysur iawn i'r chweched dosbarth ddiwedd y mis hwn. Ar y 24-25 o Fedi aeth disgyblion y 6ed i ymweld â Choleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth ar gwrs deuddydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfle oedd i ddilyn rhaglen o'r gwahanol bynciau a astudir yn y brifysgol, yn ogystal â phrofi bywyd ac awyrgylch y coleg ar gyfer y dyfodol agos.

LLOND BOL O SHAKESPEARE

Ar y 26 o Fedi aeth dosbarth Saesneg o dan ofal Mrs N. Manning i ymweld â Theatr Clwyd i weld perfformiad o'r ddrama enwog *Anthony and Cleopatra* gan Shakespeare. Yna y diwrnod canlynol bu'r un dosbarth yn ymweld ag Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda i gael perfformiad ychwanegol ar rannau gosod o *Anthony and Cleopatra*, gan ddau actor enwog o'r 'Cwmni Shakespearaidd Brenhinol'.

CHWYTHU GO IAWN

I gloi rhaid estyn ein llongyfarchiadau i'r disgyblion ddaeth i'r brig yn arholiadau chwythbrennau yn yr ysgol. Daeth Adrian Evans a Delyth Parry i'r brig ar y clarinet, gan gael canmoliaeth mawr yn yr arholiad; nid llai oedd llwyddiant Owain Griffith, Annette B. Roberts, Paula Jones, Carys Jones a Timothy Loyd ar y clarinet, a Rhian Owen a Ruth Lennon ar fflwt.

YSGOL DOLBADARN

FAITH GERDDED NODDEDIG

Cyn diwedd y tymor diwethaf cynhaliwyd taith gerdded noddedig er budd Cronfa Ariannol yr Ysgol. Llwyddiant mawr fu'r daith a gwnaed elw o bron i £600. Manteisia'r Prifathro ar y cyfle hwn i ddatgan ei ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at llwyddiant yr ymdrech.

FFARWELIO

Ar ddiwedd Gorffennaf ffarweliodd â rhai o'r plant; rhai yn gadael y cylch ac eraill yn myned i Ysgol Brynrefail, Llanrug. Dymunai yn dda i'r plant hyn i'r dyfodol.

Ffarwelio a chroesawu athrawesau yw'n hanes hefyd. Ar ddiwedd y tymor diwethaf ffarweliodd â Miss Wenna Jones, Athrawes Dosbarth 1, y Babanod, wedi iddi fwrw dau dymor yn yr ysgol.

Ar ddechrau'r tymor presennol croesawyd Mrs C.J. Roberts fel athrawes i'r ysgol. Brodor o Edern yw Mrs Roberts a chyn dod i Ddolbadarn dysgai yng Nghricieth. Yn awr triga ym Methel.

Dymunwn bob llwyddiant a bendith i Mrs Roberts yn ei swydd newydd.

PASIAN Y PLANT

Llongyfarchiadau i blant ac athrawon yr Ysgol ar eu cyfraniad gwyb i Basiant y Plant yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Portreadwyd Y Dilyw gan Ysgol Dolbadarn a Chwm-y-glo, a chofir am yr olygfa ysblennydd am amser maith. Diolch i'r athrawon am eu llafur diflino, ac hefyd i'r rheini am eu cydweithredu parod.

MYNYCHU'R YSGOL

Bu'r plant a ganlyn yn mynychu'r ysgol drwy'r flwyddyn heb gollu: Dylan E. Thomas, Jason Roberts, Bryn W. Roberts, Nia G. Griffiths, Siân G. Griffiths, Cheryl Edwards, Catrin Ll. Roberts, Gillian V. Jones, Dewi Harris, Paul Roberts, Colin Thomas, Bethan W. Jones, Iorwen E. Jones. Byddant yn derbyn tystysgrif o'r Swyddfa Addysg maes o law.

Taith i'r Gofod

(Parhad)

Gan Bethan Wyn Jones.

Dychrynodd pawb wrth glywed y newydd yma; aros am wythnos i weithio i'r Brenin? Nid oedd llawer yn fodlon i wneud hynny, 'roedd ysgol ymhen tridiau i fy chwaer a minnau. Cafodd pawb y syniad i redeg i ffwrdd o'r palas. Arhosai'r roced rhyw ddeugain llath o'r palas. 'Roedd y gyrrwr yn y roced y munud hwnnw. 'Roedd ef wedi cuddio odditan y sedd, ac ni ddaeth neb o hyd iddo ef. Byddai'n rhaid dianc pan ddeuai cyfle.

'Roedd yn ugain munud wedi tri, ac 'roedd pawb yn barod i ddechrau gweithio. Nid oedd y brenin yno'n awr, felly 'roedd cynlluniau ar dro. A dyma'r sgwrs:

"Rhaid rhedeg i ffwrdd o'r lle melltith yma".

"Ond 'does yna ddim digon o le yn y roced."

"Oes".

"Deuddeg oedd yn y roced ac mae lle i ddau-ddeg a phedwar yn y roced."

"Iawn, 'nawr ble mae'r drws cefn?"

"Dyma fo."

"Iawn, trwy'r drws yma yr ydym am redeg i ffwrdd heno."

Daeth y brenin i fewn yn union ar ôl i fy chwaer orffen y gair heno.

"Gweithiwch! 'Rydych yn cael cyflog o ddau ddarn o daffi triog sy'n ddau cendimedr o hyd ac o led."

'Roedd pawb ar bigau'r drain eisiau'r brenin fynd i'w wely a chysgu er mwyn i ni gael dianc.

Ymhen ychydig oriau dywedodd y brenin:

"'Rydw' i yn mynd i fy ngwely 'nawr, ymhen ychydig amser, dewch â phowlen o laeth enwyn cynnes i mi."

Wel, 'roedd hyn yn rhyddhad i bawb. 'Nawr, ymhen ychydig oriau fe fyddem yn barod i gychwyn o'r palas i'r roced, - ymhen ychydig oriau cofiais. Rhaid oedd disgwyl i'r brenin fod yn cysgu'n drwm cyn symud blaen bys, na llaw na throed allan o'r palas.

Aeth amser heibio ac aeth un o'r gweision oedd yno ers amser â'r laeth enwyn, aros am ugain munud ac yna mynd i'r ystafell i'w mofyn. Pan aeth Twm Robaits i 'mofyn y laeth enwyn 'roedd y brenin yn cysgu'n drwm, a pan glywodd pawb y newyddion llamodd ein calonnau i'n gyddfau.

Yn sydyn swm fel taran. Fe allwch ddychmygu, y brenin oedd wedi dechrau chwyrnu ei daranau. Ar ganol un chwyrned agorodd fy nhad y drws yn ddistaw. Gwnaeth colyn y drws wich fechan ond yn lwcus iawn ni chlywodd y brenin. Ond! pan oedd y diwethaf yn cau a chloi'r drws, 'roedd yn gymaint o straen fel y disgynnodd, ei ben gyntaf i dun paent gwag, gwnaeth hwnnw ddigon o swm i ddeffro rhywun sydd ddim yn clywed dim yn y nos. Felly fe fedrwech ddychmygu faint o eiliadau gymerodd i ddeffro'r brenin sy'n clywed hyd yn oed llygoden fach yn gwichian mewn ceg cath. Ond i arbed trwbwl dywedodd un o'r gweision:

"O, dim ond un o'r tuniau yn dal eich laeth enwyn, Syr."

"A oes peth wedi ei ddfetha."

"N...N.....Nagoes Syr."

Ond ar waetha' hyn 'roedd y brenin yn meddwl bod tinc bychan chwarae triciau yn llais y gwas. Felly cododd o'i wely. Clywodd pawb ohonom y twrw a rhedasom ar y cyflymder mwyaf a oedd yn bosibl ac wrth gwrs rhaid oedd i rywun arwain y sawl a oedd gyda'r tun paent ar ei ben!

"Tyrd y lolyn," meddai'r un oedd yn ei arwain.

"Fedra'i ddim dod ddim cyflymach, cofia 'rydwyf i yn fy mhumdegau nid wyt ti ond ugain."

Pan oedd Modryb Meri ar ganol deffro'r gyrrwr agorodd drws y palas a'r brenin yn sefyll yno.

"Dewch yn ôl, ni chewch ddianc. Criw drwg oedd yr ail griw, ni fuasai'r criw cyntaf wedi meddwl gwneud y fath beth."

Ond yn lwcus erbyn iddo gyrraedd hanner ffordd at y roced 'roeddym ni wedi cychwyn a'r brenin ar ôl ar y Lleuad, yn gweiddi geiriau bythgofiadwy:

"Dewch yn ôl, mi dalia'i chwi'r triwantiad."

(I Barhau)

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

DINORWIG

CYDYMDEIMLIR — Â Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan y Bwlch, a'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth o golli brawd Mr A. Griffith yn ddiweddar, sef Mr Charles Griffith, Tan yr Henffordd, Clwt-y-bont.

Hefyd, â Mrs Ann E. Jones, 3 Bro Elidir, a'r bechgyn David, Alwyn a Wyn, ac a Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian, a'r plant Shirley a Delwen ym marw Mrs Hannah J. Williams, Ty'n Fawnog Uchaf, yn ddiweddar, modryb a nain annwyl y plant.

O'R YSBYTY — Croesawir gartref a dymunir gwellhad buan i Mrs Annie Jones, 6 Bro Elidir, o Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon; Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, wedi triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon, a Mr Eurwyn Fleming, 1 Maes Eilian, wedi triniaeth yn Ysbyty Sant Thomas, Llundain.

NOSON GOFFI — Cafwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn yn y Ganolfan, nos Fercher, Medi 12. Âi'r elw at gostau gyda'r Ganolfan. Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb gyfrannodd ymhob rhyw fodd at y noson.

I'R COLEG — Dymunir pob llwyddiant i Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, ar ei mynediad y mis hwn i Goleg Cerdd y 'Royal Northern', Manceinion, i astudio cerddoriaeth yn gyffredinol am bedair blynedd.

Hefyd, pob llwyddiant i Miss Karen Jones, Foelgron, ar ei mynediad i Goleg Technegol Bangor i gymhwyso'i hun am ddwy flynedd i fynd ymlaen gyda gwaith nyrs.

DIOLCHIADAU — Dymuna Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, ddiolch o galon i'r teulu, perthnasau, cyfeillion a chymdogion am y dymuniadau da ac am y rhoddion ariannol a'r anrhegion gwerthfawr a dderbyniodd ar ei mynediad i Goleg Cerdd Manceinion.

Dymuna Miss Marina Jones, 7 Bro Elidir ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd pan yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Diolch i swyddogion yr Ysbyty am eu gofal a'u caredigrwydd difflino.

Diolch arbennig i Dr R. Williams, Waunfawr, Mr a Mrs Emllyn Griffiths, 8 Bro Elidir, Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir, a Miss Mair Foulkes, Garnedd Wen, Fachwen. Hefyd swyddogion Awdurdod Dŵr Cymru, Bron Castell Bangor a Highfield, Caernarfon.

Dymuna Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, ddiolch yn gynnes iawn i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl ei thriniaeth llawfeddygol. Diolch yn fawr am y cardiau sy'n llawer rhy niferus i'w hateb yn unigol. Diolch yn fawr.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gofiodd am yr unig mewn unrhyw fodd.

YN YR YSBYTY — Aethpwyd â Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir i Ysbyty Môn ac Arfon am driniaeth llawfeddygol. Gwellhad buan iddo.

Hefyd, Mr R.H. Thomas, Craige sy'n dymuno diolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr Ysbyty, a hefyd carai ddiolch i staff Geriatric St. David's, Bangor am eu gwasanaeth arbennig.

DIOLCH — Dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa Clwt-y-bont ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r arian a dderbyniodd yn ystod ei phrofedigaeth fawr o golli ei merch Glenys dydd Mawrth Awst 21.

BRYNREFAIL

CYSTADLEUAETH GWISG FFANSI Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn y Ffestri trwy ganiatad caredig y Capel. Yr enillwyr oedd : Dan 4: 1. Nicola Houston, 2. Marian Jones, 3. Paul Jones a Martin Owen. Dan 7 Oed: 1. Kelvin Houston a Sally Ann Ellis, 2. Dennis Gosling, John Gosling, David Gosling, Monica McAfferty. 3. Tudur Roberts a Llyr Jones. Dan 11: 1. Terry Parry, Susan Parry, Jackline Wager. 2. Terry Jones, Richard Glyn Ellis, Christine Jones.

Dan 16: 1. Iestyn Jones, 2. Heather Wyn Jones a Delyth Roberts. 3. Janet Jones a Llinos Roberts. Dros 16: 1. Carol Houston a Glenys Jones, a hefyd gwborwywyd fel y goreuon o'r holl gystadlaethau.

MABOLGAMPAU — Awst 25. Ras gan 4: 1. Nicola Houston, 2. Gareth Smith, 3. Marian Jones. Ras Wy a Llwy: Dan 7 oed: 1. Kevin Houston, 2. Llyr Jones, 3. Paul Roberts. Dan 12 oed: 1. Kathy Williams, 2. Terry Parry ac Andrew Roberts, 3. Sally Ellis. Ras Sach: Dan 7 oed : 1. Sally Ellis, 2. Llyr Jones, 3. Tudur Roberts. Dan 12 oed: 1. Alwen Jones, 2. Susan Parry 3. Terry Parry. Ras dair coes : Dan 7 oed 1. Andrew Roberts a Kelvin Houston, 2. Sally Ellis a Monica Mc Cafferty. 3. Nicola Houston a Paul Roberts. Dan 12 oed : 1. Alwen Jones a Susan Parry, t. Arfon a Robin Jones, 3. Terry Parry a Richard Ellis. Ras Redeg : Dan 7 oed: a. Llyr Jones, 2. Andrew Roberts, 3. Dafydd Wyn Roberts. Dan 12 oed : 1. Kathy Williams, 2. Heather Jones, 3. Robin Jones.

GEMAU GIAMOCs — Tîm Carl Hasson oedd y buddugwyr gyda 22 o bwyntiau, yn ail oedd tîm Anita Jones (17) yn drydydd tîm Bleddyn Owen (16) ac yn bedwerydd tîm Shirley Roberts (11). Enillwyd y ras fawr gan Carl Hasson.

Carem ddiolch yn fawr i bawb am eu cymorth a'u cyfraniad ac yn arbennig i Mr a Mrs Larsen am eu gwasanaeth o feirniadu'r cystadlaethau gwisg ffansi ac am eu rhodd tuag at y gwobreuon.

CLWB MAMAU — Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y tymor yn Nhŷ Glas ar y 13 o Fedi. Trefnwyd rhaglen am y tymor ac etholwyd swyddogion, sef: Llywydd: Rhian Jones. Is-lywydd: Pat Jones; Ysgrifennydd: Jackie Jones, Is-ysgrifennydd: Moira Ellis. Trysorydd: Audrey Roberts.

Darparwyd y te gan Pat Jones a Carol Houston. Rhoddwyd anrheg y mis gan Margaret Wardle ac fe'i enillwyd gan Helen Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Gorffennaf 19, cafwyd adroddida drwyadl o'r gynhadledd flynyddol yn Llundain gan Mrs Howdle o Lanberis. Rhoddwyd y te gan Mrs Olwen Jones a Mrs Iola Owen. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Jackie Jones ac fe'i enillwyd gan Mrs Knox. Diolchwyd gan Mrs Carol Houston.

Medi 9 — Cafwyd trip i Landudno a Bae Colwyn gan derfynu y noson yn ddifyr iawn yn y Theatr gydag Ivor Emmanuel.

YMDDIHEURIAD — Fe ymddiheuir am wall yn y rhifyn diwethaf, pan ddylid fod wedi cynnwys diolchiadau gan Mrs Margaret Closs-Parry, Bryniol am y caredigrwydd ddangoswyd tuag ati tra'n yr ysbyty, ac hefyd ar ôl dychwelyd gartref, gan y teulu, cymdogion a ffrindiau.

CLWB PEDWAR UGAIN — Enillwyr mis Awst: Awst 3: 1. Glenys Jones, 2. Jenny Williams, 3. Priscilla Collins. Awst 10. 1. Ann Parry, 2. Betty Owen

3. Eirlys Williams. Awst 17: 1. Peter Welsby, 2. Meurig Jones, 3. Carl Hasson. Awst 24. 1. Dilys Evans, 2. Elwyn Jones, 3. Bobby Roberts. Awst 31: 1. Wilbert Williams, 2. Pat Mowl, 3. Mike Collins.

NANT PERIS

LLONGYFARCHION — I Helen a Tony Adams ar enedigaeth mab, brawd i Gareth James a wŷr i Mr a Mrs O.W. Humphreys, Gwastadnant.

GWAELEDD — Da gweld dau a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar wedi cael dod yn ôl i'w cynefin.

Dymunwn lwyr wellhad i Mrs Wendy Kershaw o Tanybryn a Tony Ellis, Hafan Nant Ffynnon.

LLWYDDIANT — Pleser yw clywed am llwyddiant plant yr ardal mewn gwahanol arholiadau. Bu Jennifer Elis yn llwyddiannus mewn arholiad canu'r piano.

FFAIR Y NANT — Un o'r dyddiau pwysicaf yn y Nant 'slawer dydd oedd diwrnod y Ffair. Ar ôl diwrnod y ffair yr oedd y trigolion yn paratoi at aef hir. Petaech yn gofyn i'r trigolion pa bryd y digwyddodd y peth ar peth yr ateb oedd hyn a hyn cyn neu ar ôl y Ffair. Byddai pob hen ferch a hen lanc yn cael cariad diwrnod y Ffair a byddai bri hefyd ar Ffair Wen noson cyn y Ffair. Chwith oedd gweld Medi 18 eleni heb yr un stôl ffrwythau na'r un bwrdd 'India Roc', a dim ond

un bugail ddaeth yno i werthu ei ddefaid, a dim ond un prynwr oedd yno hefyd.

COLLI FFYDDLONIAID —

Bu dau ddigwyddiad trist yn y Nant eleni, un ddiwrnod cyn y Ffair, a'r llall ddiwrnod ar ôl y Ffair. Diwrnod cyn y Ffair ffarweliwyd â gweddillion W.H. Davies, Cae Gwyn oedd wedi cerdded llwybrau'r Nant am dros 90 o flynyddoedd. Ni fu ei ffyddlonach i Gapel Rehoboth. Ei eiriau olaf yn y capel ychydig ddyddiau cyn ei farw oedd "Hogia, gwnewch bob ymdrech i gadw drws yr hen gapel yn agored".

Ddiwrnod ar ôl y ffair hebryngwyd gweddillion y diweddar Arthur Roberts o'r capel lle y gwasanaethodd am flynyddoedd lawer yn flaenor, ac yn ysgrifennydd yr Eglwys. Gŵr parod ei gymwynas a gafodd gystudd hir a blin. Cydymdeimlwn â'r teuluoedd yn eu hiraeth.

POB LWC — i Eifyn Williams sy'n mynd am flywyddyn o ymarfer mewn ffarm i Aber, cyn mynd i'r Coleg yn Aberystwyth y flywyddyn nesaf.

NEWYDDION PENISARWAUN

LLONGYFARCHIADAU i Miss Wendy Jones, 'Camelot', Penisarwaun ar ei phen-blwydd yn 18 ar Fedi 12. Mae Wendy yn awr ar staff Cyngor Sir Gwynedd, Maesincla, Caernarfon (Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth).

PWYLLGOR LLEOL LLANBERIS



Llun o Bwyllgor Lleol Llanberis (Eisteddfod 1979) ond mae tua deg o'r aelodau yn absennol. Cyfanswm a anfonwyd i

Gaernarfon oedd £4060. Os dymuna rhai o'r aelodau archebu llun rhowch eich henwau i Miss Jane Morris.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones


MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



O Gaban y Chwarel

Yn dilyn apêl H.R. Jones ar ddiwedd ei erthygl ddiddorol ar y Barics dyma ymateb yn syth gan Mr J.W. Ellis (Perisfab).

Daeth ysgrif H.R. Jones yn yr Eco y mis diwethaf ag atgofion yn ôl i mi am yr hyn a ddarllenais ac a glywais am yr amser yr oedd chwarelwyr o ardaloedd pell yn byw ynddynt ar hyd yr wythnos. Nid oes gennym enw Cymraeg iddynt. Llygriad o'r Saesneg 'barracks' yw Barics. Clywais y byddai gwŷr talentod a cherddoriaid o frii megis Eyrer Eryri a Pierce Williams o'r Waunfawr yn aros ynddynt. Ambell i noson braf o haf byddai côr wedi ymgasglu ar y tomenydd, ac Eyrer Eryri yn arwain y côr a thrigolion Llanberis a'r Nant yn mwynhau y seiniau pêr oedd yn cario dros y llyn. Clywais mai yn y barics y cyfansoddodd Eyrer Eryri ei ddeuawd boblogaidd 'Ar Lan Afonydd Babel'. Ar un adeg hysbysebwyd am labrwr i glirio suntur o frig chwarel i Cefn Du, Bryn Mawr a Chaermeinciau. Daeth cannoedd o Wyddelod barfog, anwar, nad oedd modd cael lletydai iddynt. Dyna'r adeg yr adeiladwyd y Barics Mawr ar ben y Mynydd rhwng Bwlch y Groes a Cefn Du. Adeilad helaeth a llofft drosto. Cymerodd lawer hen adeiladau yn y chwarel i fyw ynddynt. Cawn hanes rhai yn dod â'u gwragedd yno i fyw. Ar noswaith tâl deuai'r Gwyddelod i lawr i bentref Llanberis, a hefyd i Westy Glyn Peris, rhyw chwarter milltir o'r pentref, Ynys Wen i ni heddiw. Mae hanes am

gweryl yn Ynys Wen rhwng James Bevan a John Kennedy, dau o Wyddelod oedd yn aros yn y Barics Mawr. Yr oeddynt yn bur feddw a'r ffræ rhyngddynt yn gwaethygu, fel y dynesent at odre'r *incline* oedd yn llwybr iddynt i fyny i'r Barics Mawr. Ond mynd heibio'r *incline* a wnaethant ychydig lathenni i ymyl y Gors Goch. Yr ochr arall i'r ffordd yr oedd Llyn Wil Boots. Yn y llecyn hwn tarawodd John Kennedy James Bevan gyda chyllell yn ei glun gan dorri'r wythien fawr. Er i amryw o bobl ddod yno, nid oedd un yn deall sut i atal gwaedlfiad. Felly gwaeddodd y truan i farwolaeth. Digwyddodd hyn ar Noson Eisteddfod Undebol Capel Coch a Dinorwig. Ddefnyddwyd John Kennedy i bymtheng mlynedd o benydwasanaeth yn 'Botany Bay'. Bu helynt ofnadwy rhwng y Gwyddelod hyn a hogiau Beddgelert unwaith, a bore drannoeth gwelwyd darn o groen gên Gwyddel ar y bont a pheth o'r locs yn ynglŷn wrthod. Darllenais am y digwyddiad uchod flynyddoedd yn ôl yn y 'Genedl', neu'r Herald, neu'r papur newydd 'Y Chwarelwr'. A oes gan un o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa ôl-rifyn o'r 'Chwarelwr'?

Chwi gofiwch lun a ymddangosodd yn y rhifyn olaf o'r Eco gyda'r pennawd Gweithwyr Gro 1910. Sicrhawyd fi gan Mr Idris Owen, Waunfawr mai gweithwyr chwarel Glanrafon oedd rhain gan fod llun o'i dad ynddo.

— Gol.



Diolch i Mr Evan Wynne Roberts, Ael y Bryn, Waunfawr am anfon y llun hwn inni. Llun Chwarel, mae'n amlwg, ond pa un, a pha bryd? Cred Mr Roberts mai gweithwyr Cefn Du ydyn nhw. Os oes unrhyw un o'n darllenwyr yn gallu cadarnhau hyn, neu'n gwybod rhywbeth i'r gwrthwyneb buasem yn falch iawn o gael y wybodaeth.



Llun Hogia Twill y Mwg ym 1921. Y llun trwy garedigrwydd Mr M. Morris, Caernarfon, Moi Bara gydag anwyldeb i ni yn y frol.

SIBRYDION H ADDYSO

Heb os yr hen luniau sydd wedi apelio fwyaf at ddarllenwyr pleserus i rai, a rhai chwerw iawn i eraill. Sawl un yn cofio cwrthiad y 'gansen' ar eu penolau. Dyma fwy o luniau i chw...



Uchod:


Dosbarth Mr Jones, ysgolfeistr Tanycoed, Penisarwaun ydyw'r uchod. 'Roedd plant Brynrefail a Phenisarwaun yn mynychu'r ysgol hon ar un cyfnod. 'Rwy'n sicrhawyd fy mod wedi gweld y bachgen bach ynghen yn yna sy'n eistedd yn barchus wrth ymyl ei ysgolfeistr yn rhywle. Hogyn drwg tybad? Llun trwy garedigrwydd Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion, Llanrug.



Nid oes sicrhawyd pa flwyddyn ond un o'r llu o dimau criced a gyfarwyddodd Mr Ieuan L. James cyn-brifathro ysgol Brynrefail Llanrug. Yn y llun gwelir Iorwerth Madog Thomas, T. Owen Ellis, Richard Owen, B. Griffith, D. Ellis Jones, Ifan A. Jones, Hugh Llew Jones, Alun Samuel Jones, Gwilym Eric Jones, Hugh R. Roberts, W.P. Rowlands; bob un o'r hogia wedi arwyddo'r llun.

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



**Bwsiau Arfon
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254**

YSGOLION G DDOE

Yr Eco yw'r hen luniau o ysgolion. Daw rhain ag atgofion
del ei gyfareddu gan athro da, eraill yn cofio ac yn dal i deimlo
mael 'mynd trwyddynt'. Yda chi yna ysgwn i?



Ysgol Gynradd Deiniolen tua 1930. Nid oes sicrwydd. Efallai bod rhywun yn rhywle yn bendant.

YSGOL LLANRUG



Llawer o wynebau cyfarwydd yn y llun yma o ysgol Llanrug. Ddyweda ni ddim
pa flwyddyn! Gwelir ynddo y diweddar Brifathro G.T. Roberts, y diweddar
John Morris (Aberdaron), Fachwen. Hefyd gwelir Miss J.M. Parry.
Mae un cwestiwn yn aros - I ble'r aeth 'waves' Mr Leslie Larsen?



Diolch i Beti Roberts, 'Refail, Llanrug, am anfon y llun hwn i'r Eco. Gwyddom
mai rhai o blant Ysgol Ganol y pentref sydd ynddo ond ni chawsom unrhyw
enwau na dyddiad. Mae'n siwr fod rhai ohonoch yn adnabod yr wynebau'n iawn
ac yn cofio'r achlysur.

Os ydych yn cofio'r amser yn dda beth am anfon eich atgofion am fywyd
ysgol y cyfnod i'r Eco. Buasem yn falch iawn o'ch cyfraniadau.

MOEL RHIWEN

gan
Glyn Hewitt.

Cyn y rhyfel byd cyntaf 'roedd peth diddorol ac anghyffredin i'w weld ar lethrau Moel Rhiwen, ger Deiniolen, Sir Gaernarfon. I ddathlu Jiwbilí y Frenhines Fictoria plannodd perchennog y tir, Assheton Smith, goed, ac wedi iddyn nhw dyfu yn ddigon o faint 'roedd y gair, 'Jiwbilí', i weld yn eglur o bell ffordd. Yr ochr arall i'r Foel plannwyd coed eraill yn nodi'r flwyddyn, sef 1887. Oherwydd hyn gelwid y Foel yn lleol, Mynydd Jiwbilí.

Tybed ai gwarafun i'r frenhines gael y sioe i gyd iddi'i hun a barodd i Assheton Smith blannu coed yn ffurfio llythrennau cyntaf ei enw ef ei hun, G.W.D.A.S. odditan y gair, Jiwbilí? 'Wn i ddim.

Yn ystod rhyfel 1914-18 torrwyd y coed hyn i lawr gan adael y Foel yn foel mewn ystyr arall.

O feddwl am hyn yn ddiweddar cefais syniad, ond tybed a fyddai'r peth yn ymarferol yn nhyb Comisiwn y Fforestydd, cyn belled ag mae economeg yn y cwestiwn, mater pwysig y dyddiau hyn?

P'r un bynnag am hynny, ar fryn yn Whiltshire gellir gweld ceffyl anferth gwyn, ac mae hwn yn rhyfeddod i ymwelwyr a theithwyr. Oni allwn ni yng Nghymru wneud cystal, neu well o bosib?

Yn lle bod y Comisiwn yn plannu coed yn y dull arferol, hynny yw, yn glytiau sgwâr, neu hir-sgwâr, neu heb siâp o gwbl ond am eu bod yn llenwi bob troedfedd sydd ddichon ei chael, tybed a fyddai'n ymarferol eu plannu fel, pan ddont ynddigon o faint, cawn weld ar lethrau'r

mynyddoedd gennin Pedr, neu ddraig - un werdd mae arnâi ofn neu blu Tywysog Cymru? A beth am injan stêm y rheilffordd gan fod y greadures - ynteu greadur? - ffyddlon yma bron wedi diflannu o'n golwg? Beth am un, neu ddau neu ragor o hen gestyll Cymru? Pontydd hefyd, a chorgi, a'r cob Cymreig. A pheidiwn ar un cyfri anghofio'r hen het corun-uchel.

Gallwn gynnig rhagor o bethau, ond efallai bod hyn yn ddigon i gychwyn; ac mae'n sicr y gallai bois y Comisiwn feddwl am bethau diddorol a thrawiadol i ychwanegu at y rhestr hwn.

Pe buasai llethrau'n mynyddoedd ni wedi'u haddurno fel hyn efallai y buasai hynny'n hwb i'r diwydiant ymwelwyr. I'm tyb i 'does fawr o'ramant mewn clytiau trwchus o goed fel y gwelir nhw rwan, ond pe baent wedi'u gosod mewn patrymau addurniadol buasent yn sicr o ennyn cywreinerwydd pawb, mi gredaf. A gallaf ddychmygu ymwelwyr o wledydd tramor yn dychwelyd adre ac yn canmol nid yn unig prydferthwch ein gwlad ond hefyd y dull sydd gennym o addurno'r mynyddoedd. Ac yn arbennig gallaf ddychmygu'r Americanwr yn dweud wrth ei gyfeillion:

'Gosh! You must visit Wales, The scenery is great. And to keep your eyes skinned the trees planted on the hillsides. Boy! What an enterprising bunch of guys those foresters are. And what artists. Yeah, you must visit li'l ole Wales. A great li'l country.'

Breuddwyd? Ie, efallai. Ond beth amdani?

W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association
of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

Hywel A

Ym Mangor rhwng Hydref 22 a Tachwedd 2 cynhelir rhan o Wyl 79 Theatr Cymru. Cyflwynir un ddrama gan y Theatr a chysylltiadau agos iawn â bro'r Eco. HYWEL A yw'r ddrama ac fe'i sgrifennwyd gan Huw Roberts, sy'n enedigol o Lanberis. Cymerir un o'r prif rannau gan Maureen Rhys a chyfarwyddir y ddrama gan John Ogwen.

'Comedi hen ffasiwn newydd' ydyw disgrifiad yr awdur ohoni, a cheir ynddi holl ddrysych traddodiadol y ffars. Eisoes derbyniodd HYWEL A gymeradwyaeth frwd a chlod uchel cynulleidfa a beirniad yn Eisteddfod Caernarfon. Bu galw mawr am gomedi Gymraeg wreiddiol a dyma ddrama sy'n ddifyrwrch o'r radd uchaf ac yn un sy'n ennyn sawl math o chwerthin. Mae'r miliwnydd Hywel A ar ei wely angau, a'i deulu a'i ffrind pennaf yn crafangu am ei eiddo. Pwrpas pennaf HYWEL A yw difyrru a gwneud i bobol chwerthin ac mae ynddi elfennau gwahanol o gomedi. John Ogwen sydd wedi ei chyfarwyddo a dyma'r tro cyntaf iddo wneud hyn i'r Cwmni.

LLANBERIS

GENEDIGAETH — ar Fedi 11 yn Lowton, Warrington ganwyd merch, Katy Wyn, i Paul a Vicky Williams. Llongyfarchiadau i'r pâr ieuanc, ac hefyd i Mr a Mrs Trefor Wyn Williams, ar fod yn daid a nafr am y tro cyntaf, ac hefyd i Gillian am fod yn fodryb am y tro cyntaf.

YN GWELLA — Mae amryw o'r trigolion wedi eu caethiwo i'w cartrefi gan waeledd; yn eu mysg Mrs Nellie Pritchard, Hafan, Mrs Yvonne Wilson Roberts, 7 Stryd Bethesda, Mark Parry, Stryd Fawr. Dymunwn wellhad llwyr yn fuan iddynt, ac hefyd i'r rhai sydd o hyd yn yr ysbyty: Mrs Lorraine Williams, Mrs Roberts, Frondeg, Mrs Thomas, Fflat 75, Maes Padarn, Mrs Gwen Fosse, Stryd Thomas, Mrs Marlene Williams, Llainwen Isaf.

LLONGYFARCHIADAU — i Eleri Wyn Parry, B.Ed., Glan y Don ar gael ei phenodi yn athrawes Gwyddor Tŷ yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun.

Mab Mr a Mrs T.J. Roberts, Dôl Elidir, sef Mr Reg Roberts, ar gael ei benodi yn athro yn Ysgol Brynrefail, a Gwilym Evans, Castle Gift Shop ar ei benodiad yn athro mewn ysgol yn ōchrau Llandudno.

LLWYDDIANT — Llongyfarchiadau i Shirley Owen, 46 Maes Padarn ar ei llwyddiant yn yr arholiadau Lefel A. Mae Shirley ar fin dechrau ei gyrfa yng Ngholeg Addysg Uwchradd Lerpwl. Pob lwc yn y dyfodol iti Shirley.

TRIPIAU — Yn ystod y mis trefnwyd trip gan y Canon Alun Jones i aelodau Eglwys Sant Padarn ac eraill i weld Eglwys Gadeiriol Caerloyw.

Aeth rhai o aelodau Sefydliad y Merched am drip i Landudno, gan orffen y dydd gyda noson ddfyr yn yr Arcadia.

Mwynhawyd y ddau drip yn fawr iawn.

CROESO — i Mrs Jennifer Roberts, Bethel, yn athrawes i Ysgol Dolbadarn. Cyn dod i Lanberis 'roedd Mrs Roberts yn gwasanaethu yn Ysgol Gynradd Cricieth.

PERSONOL — Estynnir cydymdeimlad â Mrs Mair Williams, 5 Field Terrace o golli ei chwaer oedd yn byw yn Nhan-y-coed, Llanrug.

Mae amryw o'r ardalwyr yn cofio Mr Richard Parry a arferai wasanaethu yn y Banc Midland yn Llanberis. Bu'n aros ar hyd y blynyddoedd gyda'r ddiweddar Miss Elidir Davies, Tal-y-Don. Ar ôl cystudd blin am amser maith bu Mr Parry farw yn Ysbyty Mon ac Arfon, Bangor.

EISTEDDFOD — Nos Lun, Medi 17, cynhaliwyd pwyllgor Eisteddfod Plant Capeli Gorffwysfa, Preswylfa, Capel Coch, a Nant Padarn. Penderfynwyd cynnal Eisteddfod 1980 nosweithiau iau — Mawrth 13 a Gwener 14 yng Nghapel Gorffwysfa.

Swyddogion Eisteddfod 1980 yw Cadeirydd — Y Parch Marcus Robinson, Ysgrifennydd — Mrs Meirwen Baylis, Is-ysgrifennydd — Mrs Catherine L.I. Williams, Trysorydd — Mrs Ceinwen Williams.

EGLWYS SANT PADARN — Yn ystod misoedd yr haf cynhaliwyd Cymanfa Ganu, bob nos Sul yn yr Eglwys ar ôl moddion yr hwy. Bu llawer o artistiaid, rhai ohonynt yn lleol yn cymryd rhan.

Dymunai ardalwyr Llanberis ddiolch i'r Canon Alun Jones am drefnu'r nosweithiau yma, ac am y mwyniant a'r boddhad a gawsant wrth ei mynychu.

PRIODASAU — Yn ystod y mis yng Nghapel Coch, priodwyd Jane Claire, merch hynaf Mr a Mrs J. Rhys Owen, 50 Dôl Elidir, a Colin Irvine.

Yng Nghonwy ar yr 8 o Fedi priodwyd Tony mab Mrs Yvonne Maxwell-Hughes a Karen, merch Mr a Mrs Griffith Ellis, o Landudno. Mae'r pâr ieuanc yn dilyn eu gyrfa yn y Brifysgol ym Mangor.

MARWOLAETHAU — Cydymdeimlir â theuluoedd y rhai a fu farw yn ystod y mis.

Bu farw Mrs E. Roberts, 'Woodville' Ffordd Capel Coch, yn sydyn yn y diwedd. Bu yn cwyno am amser maith. Bydd y golled yn fawr i'w phriod Mr Richie Roberts, ei mab, Mr Glyn Roberts, a'i merch Mrs Helen Morris.

Eto ar ôl gwaeledd hir bu farw Mr John Owen, 2 Ffordd Capel Coch. Estynnir cydymdeimlad â'r weddw Mrs Agnes Owen a'r plant, yn eu profedigaeth.

Yn frawychus o sydyn bu farw Mr Emyr Jones, 27 Dôl Elidir yn yr ysbyty ym Mangor. 'Roedd Emyr yn boblogaidd iawn, ac wedi gwneud ymdrech deg iawn i gario ymlaen gyda'i waith er nad oedd yn holliach. Gedy weddw, Mrs Joyce Jones, a phedwar plentyn.

Mae cydymdeimlad yr ardal â'r teulu yn eu colled fawr.

Yn ysbyty Bryn Seiont bu farw Mr Arthur Roberts, Dôl Eilian. Bu'n dioddef afiechyd blin yn dawel a dirwgnach. Nid oes ond ychydig ers pan symudodd y teulu o Nant Peris i'r pentref. 'Roedd yn flaenor yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris.

Estynnir cydymdeimlad i'w weddw a'i feibion.

Yng nghartref ei ferch Mrs Beth Jones, Grove House, Stryd Fawr bu farw Mr William Davies.

Brodor o Nant Peris oedd, ond wedi ymgartrefu gyda'i ferch yn Llanberis ers peth amser. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

LLWYDDIANT — Llongyfarchiadau i Tony Owen, mab Mrs Y. Maxwell Hughes ar ei lwyddiant eto eleni yn ei arholiadau yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Enwyd Tony yn 'Fyfyriwr y Flwyddyn' gan awdurdodau'r Coleg.

LLONGYFARCHIADAU — I Miss Rona Morgan, Bod Eilian Newydd, a ei hapwyntiad yn athrawes Gwyddor Tŷ yn St. Helen's.

Hefyd i Mr John Anthony Owen, 21 Goodman St. ar ei briodas â Miss Karen Wynne Ellis o Landudno.

PERSONOL — Dymunwn gydymdeimlo â Mrs Nancy Jones, Fflatiau Maes Padarn a'i chwaer Mrs Diana Pritchard Ceunant ar golli eu brawd hynaf oedd yn byw yn Lloegr.

ADFERIAD BUAN — I Mrs Olwen Lambrecht, Dôl Elidir a Mrs Mary Thomas, Olgra Terrace.

ENILLWYR Y DARTIAU

MERCHED: Ellen Wyn Morris
DYNION: 1. Graham Jones (Cwpan y Carnifal — rhodd Mr Elfed Williams, Gwesty'r Castell)
2. Cameron Eckford, 3. Gwyn Williams a Dewi James.

ENILLWYR Y BINGO

ENILLWYR: Mrs C. Lovell, Nant Peris, Mrs Nellie Morris, Mrs Sybil Evans, Mrs Iola Sellars, Mrs Morfydd Jones, Mrs Enfyf Parry, Mrs Enid Thomas, Mrs Dorothy Williams, Mrs Iona Jones, Mrs Eifiona Harris, Mrs Carol Roberts i gyd o Lanberis.

ENILLWYR Y GEMAU AM DDIM
Mrs Carol Roberts, Mrs Glenys Owen, a Mrs Gillian Williams eto i gyd o Lanberis.

ENILLWYR Y RAFFL

1. Mrs K. Owen, 2. Mrs N. Roberts, 3. Mrs S. Atkin, 4. Mrs H. Thomas, 5. Mrs D. Williams, 6. Mrs K. Owen.

MWY O ENILLWYR Y CARNIFAL



Rhai o'r cystadleuwyr



Tablo Stryd Newton a ddaeth yn gyntaf gyda 'Sing a Song of Sixpence'.



(Alarch Euron Thomas a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth addurno beic).

LLUNIAU: EMLYN BAYLISS ENILLWYR Y GEMAU

ENILLWYR YR YRFA CHWIST

MERCHED: 1. Mrs Clark Llanberis, 2. Mrs A.M. Evans, Llanberis, 3. Mrs Hughes, Rhostryfan.
DYNION: 1. Mr Bryn Griffiths, Penisarwaun, 2. Mr Derek Jones, Llanberis, 3. Mr Gwilym Owen, Bethel.

SCORE HANNER AMSER

MERCHED: Mrs Parry Felinheli
DYNION: Mrs D. Walker, Beaumaris.

ENILLWYR Y BOOBY

MERCHED: Mrs Enid Roberts, Llanberis.
DYNION: Mrs M. Thomas, Llanberis

ENILLWYR Y KNOCK-OUT

MERCHED: Mrs Morris, Cwm-y-glo
DYNION: Mr Hugh Owen, Llanberis

ENILLWYR Y RAFFL

1. Mr Peter Evans, Waunfawr, 2. Mrs Enid Roberts, Llanberis, 3. Miss Ann Evans, Llanberis, 4. Mrs Gartside, Llanberis, 5. Mrs Enid Price.

1. Llanrug (Tlws Eco'r Wyddfa)
2. Llanberis

ATEBION I'R ANAGRAMAU

1. Week mul ia	Milwaukee
2. Ci nant ci ni	Cincinnati
3. Lips sing race	Alice Springs
4. Red noon of pa	Fernando Poo
5. Adar heb yd	Hyderabad
6. Bake a kill a	Lake Baikal
7. Ron dim het	Trondheim
8. As ape can is	Caspian Sea
9. Salt bara ui	Bratislava
10. Ring ink a lad	Kaliningrad
11. Fag anti Shan	Afghanistan
12. Tata o fan gas	Antofagasta
13. Te har i come	Coimbatore
14. Wal driplan	Rawalpindi
15. Un a tri a mai	Mauritania
16. Maen het i Dic	Medicine Hat
17. A rix and ale	Alexandria
18. Down Sonia	Snowdonia
19. Caws yn lle net em	Newcastle Emlyn
20. Be Car a lon	Barcelona

B'LE 'RAETH YR HEN FFAIR NANT

Diwrnod pwysig iawn fyddai y deunawfed o fis Medi yn flynyddol, pam? Wel, diwrnod y Ffair yn siŵr i chi.

Bellach un o'r gweithgareddau a fu yw ei hanes erbyn heddiw; mae diwrnod y ffair wedi distewi a mynd yn fud, ond y mae y defaid ar y mynyddoedd yn aros, a hyfryd meddwl cymaint y difyrrwch yw hyn i ni'r brodorion a llawer o ymwelwyr. Cofier fod y ffair yn rhywbeth heblaw cyfrwng i brynu a gwerthu da byw. Yr oedd yn ben tymor, yr oedd yn amser cyflawni addewidion a thalu dyledion. "Mi setlwn ni ddiwrnod y ffair." Dyna fyddai'r arwyddair gan bobl y Nant. Dyma'r diwrnod talu'n ôl am yr holl gymwynasau a dderbyniwyd ac a wnaed wrth hel y defaid, a'r cynhaeaf, ac yn ddiethriad y tâl fyddai ½ pwys o faco, pâr neu ddau o sana (edafedd wedi ei nyddu gartref, a merched y cartref wedi eu gwau yn ystod misoedd y gaeaf cynt), ac nid oeddynt yn cyfrif 'overtime' yr adeg honno; cybell waith printan o 'fenyn bach' a faint fynner o laeth enwyn, peint neu ddau o lefrith yn awr ac yn y man. Pan ddela amser lladd mochyn, llwdn, neu afr byddai darn helaeth o'r cig wedi ei neilltuo yn dâl am ryw gymwynas gafwyd allan o'r cyffredin.

Cyfrifid ffair Nant yn ddydd pen-blwydd y brodorion, gan y byddai cymaint o berthnasau yn talu ymweliad y diwrnod hwn i gael tipyn o 'sgram'. Yna nis gwelid hwynt wedyn tan ddiwrnod y ffair y flwyddyn ddilynol. Caent groeso mawr, a boliad o bob math o ddanteithion. Mae sôn bod Gerallt Gymro wedi 'brolio' caredigrwydd pobl y Nant yn uchel iawn; efallai iddo yntau ddigwydd mynd trwodd ar ei daith ddiwrnod ffair.

Y merched druan wedi eu caethiwo yn eu tai heb gael rhan yn y rhialtwch gan fod yn rhaid aros yn y tŷ i ddiddori perthnasau. 'Cael a chael' wnaent

i gipio ychydig fargeinion oddi ar stonidin lestri Stringar a stonidin dipyn-o-bob-peth 'Margiad Annwl' (dyn oedd y Margiad Annwl hwn), a gyda stic neu ddau o Inja Roc No 7 Llanerchymedd, dyna'r ffair drosodd i'r merched.

Ymhell cyn y ffair byddem ni y plant yn 'stwyrian' ac yn 'swlffa' er ceisio gwybod sawl sioe a ddisgwyliid i 'Cae Llan'.

A dyna stŵr fyddai pan geid gwybod fod Wildman, Simons a Teago gyda'i geffylau pren, y swings, ar Living pictures, heb sôn am stoliau coconut, saethu, 'Try your might', hoopla etc. etc. Tybed a fyddai lle iddynt oll yn y cae?

Y noson cyn y ffair, deuai y dynion ynghyd i'r 'Ffair Wen' i logi corlannau a'u gosod i fyny wrth glwyd y fynwent. Hefyd yno ceid trafod prisiau a ddisgwyliid am y da byw, a'r gwlan, yna adre' i fynd i'r gwely'n gynnar gan y byddai eisiau codi'n fore i'r ffair. Dyna'r bore wedi gwawrio, y tyddynnwr yn ei frethyn yn lle ei felfaréd, yn prysur fwestro ei ddiadell ddewisol, y defaid a'r myllt gorau gydag ambell i ddafad farus yn eu mysg. Erbyn hyn yr oedd pwysau gwaed y dynion yn codi, edrychent yn chwyrn a phwysig iawn. Ac yr oedd gofyn bod, hefyd, yn benderfynol a chadarn i ddal wrth y prisiau y cytunwyd arnynt, er eu bod lawer rhy isel o ystyried y llafur, amser a'r drafferth o ddarparu erbyn y diwrnod mawr.

Cyrhaedda'r prynwyr o un i un tua deg o'r gloch y bore. Rhai wedi teithio o ganolbarth Lloegr, rhai o Iwerddon a'r Alban.

Digwyddai ambell ffrwgdw weithiau tra'n bargeinio oherwydd anhawster gyda'r gwahanol ieithoedd, a byddai raid wrth gyfieithydd i wastatu'r taeru. Y sarhad mwyaf i ddyd y defaid fyddai iddo glywed prynwr yn

LLYTHYRAU

*Annwyl Olygydd,
Fe gynhelir ein Gŵyl Gerdd Dant Genedlaethol eleni ar Sadwrn Tachwedd 17 yng Nghaerfyrddin. Mae'r Pwyllgor lleol wedi paratoi rhaglen o destunau deniadol dros ben gyda chystadlaethau i bob oed yn yr Adranau Cerdd Dant, Y Delyn, Adrodd i gyfeiliant telyn ac offerynnau eraill os dymunir, Canu Gwerin a Dawnsio Gwerin. Yn yr Adran Farddoniaeth mae cystadleuaeth cyfansoddi Cywydd Coffa naill ai i'r Athro Jac L. Williams neu Alwyn D. Rees. Soned i 'Gwenallt', Englyn 'Y Pethe'. Cyfres o chwech o hen benillion yn ymwneud â bywyd cyfoes Cymru. Salm foliant i dref Caerfyrddin. Telyneg 'Cwlwm' ynghyd ag eraill.*

Y cyfansoddiadau i ddod i law'r ysgrifennydd. Rhaid i'r cystadleuwyr anfon eu henwau i mewn erbyn Hydref 20.

Mae croeso i unrhyw un anfon ataf am gopi o'r rhestr testunau, ac mae croeso mawr i holl ddarllenwyr eich papur ddod atom i fwynhau'r Wyl.

Yn gywir iawn,

*Meinir Lloyd,
Llainedlyn,
20 Waundew,
Caerfyrddin.
Ffôn 7081*

collfarnu ei ddiadell, ac yn aml iawn byddai rhywbeth heblaw'r fargen yn cael ei daro.

Yn fuan wedi un o'r gloch y prynhawn byddai gwerthiant y da byw drosodd a'r bobl yn dylifo o'r ardaloedd cyfagos mewn brêcs cyn bod y cerbyd modur yn gwybod fod yna ffair yn y Nant!, a dyna ddechrau y rhialtwch.

Byddai'r hen seintiau yn y capel eisoes wedi cynghori a rhoddi y drefn i lawr, gyda bygythion arswydus os meiddiai'r rhai ieuainc ymddwyn yn anwedus, ac am iddynt gofio mai plant y seiat oeddynt.

Oddigerth ambell lygad du a thrwyn coch gwaedlyd, byddai'r ffair drosodd heb fawr o dramgwydd, ac wedi'r holl firi a rhialtwch deuai rhyw ddistawrwydd rhyfeddol, pen ar y tymor.

Cwmpiad y dail, blodau ffarwel haf yn gogwydd eu pennau fel yn bowio'r tymor allan. Hefyd trên bach yr Wyddfa ar ei siwrnai olaf am y tymor ddiwrnod y ffair. Y ddwy goits fawr sef y *Rocket* a'r *Royal Oak* gyda'i phedwar ceffyl yr un, hwythau wedi dod i ben eu tymor, tra bod sŵn 'clop clop' eu carnau wedi distewi. Cerbydau 'Ned Holyhead' a 'Magna Bonas' gyda'u ceffylau yn 'stryffaglio' i fyny'r 'Pass' gyda'u llwythi o ymwelwyr, wedi mynd i'w cadw dros y gaeaf. Erbyn heddiw yr oll ymysg y pethau a fu. Rhoddasant lawer o'u hamser i ddfyrru brodorion ac ymwelwyr.

W.D. Bangor.

Llyfrau

Castell Bryn Bras Bryn Bras Castle – Llyfryn uniaith Saesneg wedi ei baratoi gan R.D. Gray-Williams a'i gyhoeddi ganddo ef a'i chwaer Mrs M. Gray-Parry – cyd-berchnogion presennol y castell. Bydd yn llyfryn sy'n sicr o lenwi bwch gan nad oes nemor ddim wedi ei gyhoeddi (yn gwbl gywir, beth bynnag) ar y Castell lleol hwn.

Ffrwyth ymchwil blynyddoedd gan Mr Gray-Williams i hanes ei gartref yw'r gwaith. Ei nod, meddai yn ei ragair, oedd rhoi fframwaith hanesyddol gywir lle y gellid ffittio manylion bywgraffiadol yn ddiweddarach.

Mewn 79 tudalen mae'n olrhain hanes Bryn Bras a'i bobl, dros gyfnod o dair canrif, sef hanes bywyd, uchelgais, cyfoeth, amseroedd o newid ac o lwyddiant.

Mae'r diwyg yn drefnus ac mae'r cynlluniau, mapiau, a'r lluniau clir yn ychwanegu i wneud cyfanwaith deniadol iawn.

DIOLCH – Dymuna Tony Ellis ddiolch o galon i'w ffrindiau cymdogion a pherthnasau am eu caredigrwydd tuag ato pan yn yr ysbyty. Diolch hefyd i ddoctoriaid a nyrsus ysbyty Minffordd, Bangor.

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llyisiau
a diodydd

**E. & E.M.
GREEN**

**SIOP
GRON**

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES

Pwyllgor Carnifal Llanberis yn cyflwyno

CYNGERDD

gyda

CÔR TELYN TEILO a HOGIA'R WYDDFA

(Gŵr gwadd: Mr Iorwerth Ellis)

Yng Nghapel Coch, Llanberis.
NOS SADWRN, TACHWEDD 3ydd, 1979
I ddechrau am 7.30 o'r gloch
Pris Oedolion £1. Pensiynwyr a phlant 50c.

Tocynnau ar werth gan:
Mr Alwyn Thomas, Foelas, Stryd Newton,
Llanberis 220
ac mewn siopau lleol

Manylion ar y poster.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

AP GLASLYN Y CANWR

Fel y dywedais yn fy ysgrif i'r Herald Cymraeg Ionawr 1961, mewn cyngerdd mawr ym Mhafiliwn Caernarfon ym 1882 y daeth y Parch John Owen (Ap Glaslyn) i sylw neilltuol fel canwr pan enillodd y llawryf oddi ar ddeg o brif gantorion Cymru. Yr oedd y gynulleidfa oddeutu saith mil a thrwy i'r gynulleidfa bleidleisio, felly y barnwyd pwy oedd y gorau.

Datganodd Ap Glaslyn 'Pleserfod y Niagra' (Dr Parry), gyda'r fath arddeliad nes gyrru'r gynulleidfa fawr yn wenfflam mewn cymeradwyaeth.

Chlywodd neb yn gynt nac wedyn y darn hwn yn debyg iddo. Clywais fod amryw oedd yn y cyngerdd yn dweud mai dyna'r gorchestwaith mwyaf a glywsant erioed ar lwyfan y gân.

TREFN Y CANTORION

'Rwy'n sicr yr hoffech gael enwau'r cantorion, eu caneuon a'r pleidleisiau oedd yn y cyngerdd. Dyma nhw yn eu trefn.

J.H. Dew yn canu 'The three Sailor Boys', Cafodd 37 pleidlais; Williams Parry 'Cwmp Llywelyn' 68; Llew Jones 'Revenge Timotheus Cries', (Handel) 40; David Jones 'Cadlef Gymreig' 120; L.L. Roberts Honour and Arms' (Handel) 47; Thomas Harries 'I fear no foe' (Adams) 217; W.W. Ellis 'The White Squall' 42; J.G. Owen (Ap Glaslyn) 'Pleserfad y Niagra' (Dr Parry) 676; J.Ph. Jones 'Bachgen Dewr' (Dr Parry) 16; R.W. Jones, 'Ysbryd y Dewrion' 52.

YSBRYDIAETH

Ar ôl hyn bu raid iddo adael y chwarel, gan mor luosog oedd y galwadau amdano ledled y wlad fel datganydd, beirniad ac arweinydd. A bu am gyfnod hir yn ffrynt y wlad fel canwr. Yr oedd ei arddull o ganu yn Gymröaidd a mawreddog. Arddull rydd, fugeiliol, wlatgarol — arddull yr AP, neb arall.

Medrai daflu ysbrydiacth drydanol i'w ganu, a swynwyd miloedd gan huawdledd ei lais bariton cwmpasog a phur, tyrrai y wlad i bob man i wrando arno.

Cawsai hwyl bob amser wrth ganu, 'Pa le mae'r Amen', 'Ddafad Golledig', 'Hen Gadair Freichiau fy Nhad', 'Gelert Ci Llewelyn', 'Fechgyn Cymru', 'Rhyfelgyrch Cabden Morgan', 'Hen Brocer Bach Gloyw Fy Nain' a llawer eraill.

Byddai'r bobl yn wylo wrth wrando ar ei swyn a'i wefr effeithiol yn ei ganu. Yr oedd yn foneddwr hardd ar y llwyfan hefyd.

CARE ROSA

Cafodd gynnig bywoliaeth gan rai o gwmnïau operâu Seisnig ond glynodd wrth ganu Cymreig, ac eithro Care Rosa. Ymunodd â'r cwmni yma, a mawr fu ei lwyddiant. Ond cofiwch pan oedd gyda'r cwmni, byddai Ap Glaslyn yn dal i ganu ei hen ganeuon Cymreig. Meddai ar afiaith artistig na ragorid arno gan neb oedd yn cydoesi ag ef.

Pwy a'i clywodd allai anghofio ei ganu 'Yr Hen Simdde Fawr',

'Llygoden y Felin', 'Yr Hen Garreg Aelwyd', 'Mae'r Gwynt Wedi Troi', 'Cannwyll fy Llygaid Wyt Ti', 'I Godi'r Hen Wlad yn ei Hôl', 'Gorffwys ar y Rhwyfau', 'William ar ôl', 'Fechgyn Cymru', 'A welwch chi Fi'.

Clywais iddo fod yn canu ar y llwyfan ym Mhafiliwn Caernarfon ym mis Tachwedd 1882. Yr oedd Eos Bradwen a Mrs Garvil Davies hefyd ar y llwyfan. Mr R. Pritchard oedd yn eistedd wrth yr harmonium. Yr oedd y Tidwell, a'r Chambers a'r Vaynol Band yno. Canodd Ap Glaslyn 'Halgia Vinta La Causa' (Mozart) yn fendigedig, a chafodd gymeradwyaeth uchel y dorf fawr, Cymerodd rannau mewn cyfanweithiau clasurol. Medrai hefyd drin offerynnau cerdd gyda llawgyfarwydd.

Fe ddisgleiriodd Ap Glaslyn yng nghanol llu o oleuadau ffurfafen y byd cerddorol yng Ngogledd Cymru yng nghyfnod Padarn Lewis, Jonah Owen, Tenorydd Infryn, Tenorydd y Bryniau a llu eraill. Cerddai'r sôn amdano o sir i sir ac o dalaith i dalaith yr adeg honno.

CURO PLISMAN

Ar ôl y fuddugoliaeth fawr a gafodd Ap Glaslyn ym Mhafiliwn Caernarfon am ganu'r unawd 'Niagra' daeth 'Yr Herald' allan bore Llun gyda'r pennawd canlynol yn fras uwchben un o'i golofnau 'Ap Glaslyn Wedi Curo Plisman'.

Thomas Harries oedd y plisman ac un o'r ymgeiswyr yn y gystadleuaeth. Canwr gwych!

Pan welodd yr hen wraig ei fam y pennawd am guro plisman, dychrynodd yn ofnadwy a dweud, "Gwarchod pawb, yr oeddwn i yn deud o hyd y bysa'r hogyn yna yn gwneud rhywbeth ofnadwy rhyw ddiwrnod".

CEUNANT

O'R YSBYTY — Croeso adref i Mrs M. Lloyd Jones, Hafod Owen, a Mrs Anwen Jones, Gwelfor o'r ysbyty. Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r ddwy.

DEINIOLEN,

DINORWIG,

PENISARWAUN.

DIOLCH — Dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa Clwt-y-bont ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r arian a dderbyniodd yn ystod ei phroffedigaeth fawr o golli ei merch Glenys dydd Mawrth Awst 21.

ÔR EGLWYS LLANDINORWIG 1932



Diolch i Mrs Jones am y llun.

CLWB ERYRI

Dechreuir ar dymor arall o Glwb Eryri nos Wener 5 o Hydref yng ngwesty Gwynedd, Llanberis pan geir anerchiad gan y Parch O.M. L'oyd, Caernarfon ar gynnyrch llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Y siarardwr gwadd arall yn ystod y tymor yw Mr Gwilym Owen (HTV) Bethel. Swyddogion y clwb am y tymor yw: Llywydd — Mr Iolo Llywelyn Llanrug; Is-lywydd — Mr Brython Jones, Deiniolen; Trysorydd — Mr Ieuan Ellis Jones, Llanberis; Cofnodydd — Mr Stanley Owen, Llanberis; Bardd y Clwb — Mr Llion Jones, Llanberis gyda Mr Rol Williams, Waunfawr yn ysgrifennydd. Hwn fydd pedwerydd tymor-ar-hugain y Clwb, sydd ag aelodau o blwyfi Llanberis, Llanrug, Llanddeiniolen a'r Waunfawr. Yn y cyfarfod cyntaf bydd angen ethol tri aelod newydd.

PA FLWYDDYN OEDD HYN?



Llun y diweddar Tom Jones, Tyddyn Rhuddallt yn actio yn y ddrama 'Owen Glyndŵr' gan Beriah Gwynfa Evans yng Nghastell Caernarfon.

Anfonwyd y llun gan ei ferch Mrs W.A. Jones, Y Dalar Deg.

Oes rhwyun a wŷr pa flwyddyn oedd hyn?

GAIR O'R BARICS

Annwyl Olygydd,

Fel y cyfeiriais ar y ffôn wrthych byddaf yn cael gweld Eco'r Wyddfa bob mis ac yn ei fwynhau yn arw gan imi fod yn gweithio yn Chwarel Dinorwig o 1924 hyd 1952, oddigerth y cyfnod o bum mlynedd yn rhyfel 1939-45. Cyfeirio yr wyf at y llun oedd ynddo o rai o'r criw oedd yn gweithio yn Ponc Isaf Braich ym 1927, ac mai dim ond pedwar sydd yn fyw, wel gallaf eich sicrhau fy mod inna yn fyw hefyd. 'Rwyf yn sefyll ar ben bwrdd llifio yn y cefn a'm braich am wddf y diweddar Robert Lloyd Jones, Capel Sardis (Robin Lloyd i ni yn y chwarel). Felly gwelwch fod pump yn fyw beth bynnag ac mi fedrwn enwi bron bob un sydd yn y llun. Mae'r llun yn dwyn i gof lawer o bethau difyr a hwyliog. Hefyd carwn gywiro un peth arall sydd yn yr hanes gan H.R. Jones — nid gyda stemar o Foel-y-don i Gaernarfon oedd hogia'r Bryn yn mynd ond cychwyn o'r Bryn 4.30 yn y bore, cerdded i Foel-y-don a chwch drosodd i Felinheli, a cherdded i fyny i Pensgeins i ddal trê'n y chwarel, ac aros yn y barics hyd bawn Sadwrn, a cherdded o Foel-y-don yn ôl i'r Bryn.

Pob lwc i Eco'r Wyddfa i'r dyfodol.

Yn gywir,

Alfred Williams,

Arwel, Brynsiencyn, Ynys Môn.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

PENISARWAUN

EGLWYS SANTES HELEN

UNDEB Y MAMAU — Cafwyd cyfarfod mis Medi ar nos Lun y 3. Y wraig wadd oedd Miss C. Gillespie, Llanberis a roddodd sgwrs ar Flwyddyn Ryngwladol y Plentyn. Diolchwyd iddi gan Mrs Mowl a rhoddwyd y te gan Mrs G. Thomas a Mrs T. Evans, Brynrefail.

CYDYMDEIMLWN — Â Mrs G. Lewis 6. Llys y Gwynt a'r teulu yn eu profedigaeth drist ym Mangor.

Hefyd â Mr Maddock, Woden Cottage ar golli ei fab yng nghyfraith.

LLONGYFARCHWN — Mr a Mrs Elfyn Griffiths, a Mr a Mrs Jonathan Jones (Carol, Bryn Tirion) ar achlysur eu priodas.

GWASANAETH DIOCHGARWCH — Cynhelir gwasanaethau y Diolchgarwch ar y 14eg o Hydref. Cymun yn Gymraeg am hanner awr wedi deg. Cymun yn Saesneg am chwarter i dri. Gosber a Phregeth am bump o'r gloch pryd y pregethir gan y Parch Idris Thomas, Rheithor Llanaelhaearn.

CLWB YR HEULWEN — Cynhaliwyd Clwb yr Heulwen pnawn Mawrth yng nghwmni Miss Gillespie, Llanberis.

ENNILL MEDALAU AUR — Llongyfarchiadau i Mr David Williams, 23 Bryn Tirion ar ennill dwy fedal aur mewn cystadleuaeth fabolgampau.

GWAELEDD — Yr oedd yn ddrwg gennym glywed bod Mr Gareth Williams yn cwyno gyda'i gefn ers bron i ddau fis bellach. Gobeithiwn y bydd ef yn cael gwelhad yn fuan rwan.

GWELLA — Balch oeddem o glywed bod Eurgain Haf wedi gwella'n llwyr wedi iddi gael triniaeth i dynnu ei thonsils.

Yn ddiweddar bu Mr H. Williams,

Bryntirion yn yr ysbyty; yr ydym yn falch o ddweud ei fod yn ôl gartref wedi gwella. Brysiwch i fendio'n llwyr Mr Williams.

Hefyd mae Mrs K. Jones, 9 Bryn Tirion a Mr D. Davies 4 Bryntirion hwythau wedi dychwelyd o ysbytai a braf ydyw eu gweld wedi gwella.

GENI — Llongyfarchiadau i deulu Fanwylen ar iddynt gael baban bach newydd yn ychwanegiad i'r teulu.

CROESO — Deallwn bod Mr Stanley Williams (gynt o'r Hendre) wedi priodi a dod atom i fyw yn y Waun. Croeso'n ôl i chwi a phob hapusrwydd.

SIOE GYMRAEG Y BORTH — Cafodd un neu ddau o drigolion Penisarwaun lwyddiant yn Sioe Gymraeg y Borth. Yn eu plith yr oedd Aled Green, Rhos Wian, Glyn, Weirglodd Goch, a Gwenllian Cae Corniog.

PWYLLGOR EISTEDDFOD CAERNARFON — Cynhelir cyfarfod o'r pwyllgor yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth Hydref 2 am 7.30 o'r gloch i ddod â gwaith y pwyllgor i ben.

PARTI'R HEULWEN — Bellach mae'r Parti hwn wedi rhoi'r gorau i ganu wedi 7 mlynedd o gynnal cyngerddau, llawer iawn o'r rhain at achosion da. Chwi gofiwch iddyn nhw gymryd rhan mewn cyngerdd yn Ysgol Brynrefail i roi hwb ariannol i Eco'r Wyddfa.

'Rydw' i'n sicr bod y fro yn gofidio na welir mohonynt ar llwyfan eto a'r un pryd yn diolch iddyn nhw am eu gwasanaeth.

DIOLCH — Dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa Clwt-y-bont ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r arian a dderbyniodd yn ystod ei phrofedigaeth fawr o golli ei merch Glenys dydd Mawrth Awst 21.



17 Lôn-y-Bryn, Caernarfon.

Annwyl Olygydd,

CYMRU AR WASGAR

Dyma lun o Medwyn a Rhian Wyn Jones, plant leuan Glyn Jones a Margaret Jones (leuan o Glwt-y-bont a Margaret o'r Gaerwen, sir Fôn). Tynnwyd y llun pan oeddynt yn byw yn Munchen-Gladbach, yr Almaen. Yno y ganwyd Rhian Wyn, ac y mae hi erbyn hyn yn 21 oed er Mawrth 6. Dangos 'Cymru' ar gar eu tad y maent. Y teulu yma oedd yr unig rai a gododd ar eu traed

yng nghefn y llwyfan ym mhafiliwn yr Eisteddfod pan oedd yng Nghaernarfon y tro diwethaf pan alwyd ar yr Almaen yn nefod croesawu'r Cymry ar Wasgar. Bu eu tad yn gyfrwng i ddod â Chymry oedd yn gwasanaethu ac yn byw yn yr Almaen at ei gilydd trwy sefydlu Clwb Cymraeg yno. Ef oedd ysgrifennydd y Clwb. Gweithiai i'r Llythyrdy mewn cysylltiad â Byddin Prydain yn yr Almaen. Mae'n byw ym Magillt erbyn hyn, ac yn fab i Mrs D. M. Jones, 17 Lôn-y-Bryn, Caernarfon (Caledffrwd, Clwt-y-bont gynt)

CWM-Y-GLO

GENI — Llongyfarchion i Mr a Mrs I. Roberts ar enedigaeth merch fach — Gwenan — chwaer i Elen Lloyd. Dymuna y teulu ddiolch i bawb am y gweinyddiaeth a'r anrhegion.

MARW — Nos Wener y 7 o Hydref, yn frawychus o sydyn, bu farw Mr Tom Elwyn Jones, 4 New Street. Yr oedd yn 58 mlwydd oed. Er nad oedd wedi cael llawn iechyd ers rhai blynnydoedd, eto i gyd bu ei farwolaeth ddisymwth yn fraw i'r ardal.

Bu am flynyddoedd yn of yn Chwarel Dinorwig, ac yn ôl tystiolaeth ei gyd-weithwyr yr oedd yn un o'r gofaint gorau a welodd y chwarel erioed. Yr oedd yn hynod o fedrus â'i ddwyllaw, ac yn barod bob amser â'i gymwynas, ac yn wir fe fydd colled fawr ar ei ôl yn yr ardal.

Gedy bedwar o blant, Maureen, Michael Meurig a Malcom.

Bore Mercher y 19 o Fedi bu farw Mr Owen Williams, 5 Dolafon, wedi gwaelledd hir. Ein cydymdeimlad dwysaf at y weddw a'r plant.

GWAELEDD — Unwaith yn rhagor bu llawer yn wael, ac yn cael triniaeth yn yr ysbytai. Rhestr rhy fawr i enwi pob unigolyn — ond dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt oll.

PÊL-DROED — Bu dwy gêm gyfeillgar un dan ddeuddeg oed ar gae Penisarwaun. Y canlyniad oedd Deiniolen 6, Cwm-y-glo 1. Richard Flint yn rhwydo dros Cwm. Dyma gêm wir gyfeillgar, a'r bechgyn yn mwynhau eu hunain yn llwyr.

Bu y gêm arall dan un-ar-bymtheg, ar gae Ysgol Brynrefail, gyda Deiniolen yn rhwydo 7, Cwm-y-glo 1. Gwyn

Morris yn rhwydo dros Cwm, ac yr oedd y canlyniad yma yn foddhaol iawn gan fod Deiniolen yn ail yn y Gynghrair gyntaf y tymor diwethaf.

MERCHED Y WAWR — Cyfarfu aelodau o'r gangen leol yn yr ysgol gynradd ar Fedi 19 ar ôl y gwyliau gyda Mrs Glenys Pritchard yn llywydd y mis. Wedi croesawu pawb yn eu holau, rhoddodd groeso arbennig i ddwy aelod newydd — sef Mrs Marjory Roberts, Bod Gwilym, a Mrs Ifanwy Jones, Min y Nant. Deallwn bod Mrs Jones yn gyn-aelod o gangen Merched y Wawr Llandudno.

Y gŵr gwadd oedd Mr W.J. Davies, cyn-brifathro Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam a thestun ei sgwrs oedd 'Dewiniaeth geiriau'.

Rhoddodd fraslun diddorol o'r modd y diogelwyd geiriau o'r iaith Geltaidd trwy'r canrifoedd, ac fel y defnyddir hwy hyd heddiw ar lafar gwlad, gan roddi enghreifftiau o eiriau Cymraeg.

Diolchwyd i Mr Davies gan Mrs Glenys Pritchard ac eiliwyd gan Miss Mat Pritchard.

Rhoddwyd y te gan Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle a Mrs Sylfia Williams Llwyncoed.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 3, a disgwylir Mrs Dorothy Jones, Arosfa, Fron Gader i'n hannerch.

Fel arfer estynnir croeso cynnes i unrhyw un a hoffai ymuno â'r gangen.

Un diwrnod aeth Cwil yr hen ionc Draw i'r Frican am beint linc-di-lonc, Ond Ow! dyma ddrw, Bu bron iddo farw, Pan 'nath llyffant o'i gwrw roi sbonc. 'Y Frân Ddu'



Recordiau Haf Sain

GAWSOCH CHI'R RHAIN?

YN ERBYN Y FFACTORE — Edward H. BLAS Y PRIDD — Plethyn Y CO BACH — Recordiad o Lanrug



BOD YN RHYDD Dafydd Iwan

CANEUON GORAU HOGIA'R WYDDFA (Cyfrol 2)

(Tecel, Caru Cymru, Cofio, Titw Tomos Las a mwy)

GŴYL O GÂN — Corau meibion Unedig Gogledd Cymru

CRYSBAS — "Mae 'di Bwrw"

PARTI'R FFYNNON, ELIFFANT, DELME BRYN JONES AC ANN GRIFFITHS, SŴN Y JIWBILÏ, PATRICIA O'NEILL, GLYNNE THOMAS.

Allan cyn diwedd yr Hydref: Record Newydd **TECWYN IFAN** — 'GOLEUNI YN YR HWYR'

PRYNWCH NHW RWAN AR GYFER MISOEDD HIR Y GAEAF. MAE SIOP YN EICH YMYL CHI!

SAIN, PENYGGROES, CAERNARFON (Ffôn: Penygroes 732)

DEINIOLEN



Dafydd W. Jones, yn cyflwyno rhodd i Griffith Fleming am ei wasanaeth ffyddlon fel gofawr Clwb Snwcer Deiniolen.

PLAID CYMRU — Cynhaliwyd cyfarfod o bwylgor y gangen nos Fawrth, Medi 18, pryd y trafodwyd cynigion ar gyfer y gynhadledd flynyddol yn Llandudno.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth tuag at sefydlu Clwb Cant. Os oes rhywun arall yn dymuno ymuno â'r clwb, cysyllter a Charadog Thomas, 2 Bron Helen.

Enillwyr mis Medi oedd: 1. (£15) Miss Nel Owen, 1 Tŷ Macpelah (rhif 49). 2: (£16) Arnold Morris, Liechwedd (Rhif 65).

CANOLFAN GYMDEITHASOL — Mewn cyfarfod cyhoeddus gynhaliwyd yng nghapel Maesydfref, nos Fercher, Awst 29, 1979, penderfynwyd derbyn gyda diolch gynnig hael aelodau Eglwys Maesydfref i gyflwyno'r capel i'r pentrefwyr yn rhad ac am ddim at ddibenion cymdeithasol. Yn yr un cyfarfod hefyd penderfynwyd, oherwydd pellter yr hen gapel o ganol y pentref, i ffurfio Canolfan Gymdeithasol ynghlwm wrth Ysgol Gwaun Gynfi gan ddefnyddio neuadd a seler yr Ysgol i'r diben hwnnw trwy gyntundeb y Cyngor Sir.

Bu saga sefydlu Canolfan i'r pentref ar y gweill ers dros ddeng mlynedd a'r hugain, bellach mae'r penderfyniad wedi'i gymryd, a'r hyder 'nawr yw y bydd cydgorff hapus yn nodweddu'r gweithgarwch fydd yn angenrheidiol i oresgyn problemau cychwynol y fenter. Sefydlir Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan yn cynnwys un cynrychiolydd yr un o'r tri Cyngor lleol, dau i gynrychioli Rheolwyr Ysgol Gwaun Gynfi, a chwe aelod arall yn cynrychioli'r amrywiol fudiadau a sefydliadau yn y pentref. Gwahoddiwyd deuddeg mudiad yn y pentref i enwebu cynrychiolydd i'w ethol yn un o'r hanner dwsin i weithredu ar y Pwyllgor Rheoli, a chynhelir Cyfarfod Cyhoeddus arall i'r pwrpas hynny cynted a phosibl.

GWASANAETH IEUENCTID — Dathiwyd Sul Ieuencid yng Nghapel Cefnywaun, nos Sul Medi 16. Thema y gwasanaeth oedd 'Crist, ddoe, heddiw, yfory, yr un'.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan rai o bobl ieuainc Disgwylfa a Cefnywaun — Iola Griffith, Eifiona Williams, Siân Gibson, Rhian Jones, Sharon Jones, Alwenna Morris, Ian Williams ac Emyr Griffith.

Bydd rhai o'r bobl ieuainc yn treulio penwythnos 28-30 Medi yn y Ganolfan Ieuencid yn Y Bala. Thema y penwythnos fydd 'Antur'.

CYMDEITHAS CHWIORYDD DISGWYLFA — Yn y cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun, 13 Medi, dangoswyd sleidiau gan Y Parch Trefor Lewis, yn dangos golygfeydd yn ninas Caerwrangon, Yr Amwythig, Clawdd Offa a Deiniolen yn yr eira ym 1979.

Cydymdeimlwyd â rhai aelodau a llongyfarchwyd eraill.

Rhoddwyd y te gan Mrs Marian Williams a Mrs Miriam Lewis.

Terfynwyd y cyfarfod gan Mrs J. Lewis.

Ymhlith gweithgareddau'r gaeaf y mae Noson Goffi a gynhelir yn y Ffestri nos Wener 28 Medi am 7 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb. Tal mynediad yw 20 ceiniog.

DIOLCH — Dymuna Mr John Williams, 3 Teras Cynfi ddiolch i'r cyfeillion a fu'n garedig wrtho yn ystod ei arhosiad yn ddiweddar yn ysbytai Môn ac Arfon a Bryn Seiont; i nyrsus a doctoriaid y ddau ysbyty, ac hefyd i'r teulu am yr holl gardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ac i bawb fu'n ymweld ag ef.

Hefyd, dymuna Mrs Jane Griffiths a'r teulu, Macpelah House, ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

Dymuna Mr a Mrs Gordon Davies a'r teulu, 9 Hafod Olau, ddiolch o galon i bwylgor a holl aelodau Clwb Snwcer Deiniolen am eu rhodd o ffiol flodau Garreg er cof am Roy, mab a brawd annwyl, a fu farw yng Ngorffennaf 1978.

DYWEDDIAD — Llongyfarchiadau i Jacqueline Wardle, merch Mr Tommy Wardle a'r ddiweddar Mrs Christina Wardle, 54 Pentre Helen, Deiniolen a Mr Percy Eddy, mab Mr a Mrs T. Eddy, 11 Bro Arfon, Cesarea.

Dymuniadau gorau oddi wrth Nain Deiniolen a'r teulu oll.

PRIODAS — Dydd Sadwrn, Awst 18, yng nghapel Ysgoldy Clwt-y-bont, priodwyd Miss Marian Wyr Williams merch Mr a Mrs Emyr W Williams, Llwyn Iorwg, a Mr Dafydd Vaughan Jones, mab Mr a Mrs Hugh Morris, Rhianfa. Gweinyddwyd gan y Parch Stanley H. Williams cyn-weinidog capel Ysgoldy. John Griffith, Caerbythod, oedd yr organydd. Y forwyn oedd Miss Janice Jones, Caernarfon, (cyfnither y briodferch) a'r gwas oedd Mr John Morris (brawd y priodfab).

Dymuna Dafydd a Marian ddiolch i bawb yn deulu a chyfeillion a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a phob dymuniad da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.



CLWT Y BONT A DEINIOLEN A FU



Llun drwy garedigrwydd Mr a Mrs Ifan Wyn Williams, 12, Ffordd Deiniol.

Bethel

YR URDD — Bythefnos yn ôl cyfarfu pwyllgor a charedigion yr Urdd yn y Neuadd. Swyddogion y pwyllgor am 1979/80 fydd — Cadeirydd: Mr Geraint Elis, Sycharth, Is-gadeirydd: Mrs Llinos Owen, Trysorydd: Mr Dafydd Williams, Hafod, Ysgrifennydd Mrs Fanny Owen, Bryn Teg.

Bydd yr Urdd yn agor y tymor am 6.30 nos Wener, Hydref 5. Fe drefnwyd rhaglen amrywiol ar gyfer y tymor gyda nosweithiau o ffilmiau, gemau a gwŷr gwadd.

Dydd Sadwrn, Medi 22, aeth llond bws o aelodau'r Urdd i Gorwen i ymuno yn y gweithgareddau i ddatlu hanner can mlwyddiant Eisteddfod gyntaf yr Urdd.

CYDYMDEIMLO — Ddydd Mawrth Awst 28, yn 78 mlwydd oed bu farw Mrs Ceinwen Roberts, gynt o Almira, ar ôl gwaelled hir. 'Roedd Anti Cein. yn byw ym Mlaen Parc ers 4 blynedd. Mae'n cydymdeimlad llwyr â'r teulu yn eu profedigaeth.

Dydd Gwener, Awst 31, yn frawychus o sydyn bu farw Mr Meirion Jones, Pen Buarth. 'Rydym hefyd yn estyn ein cyd-ymdeimlad i Mrs Jones a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Dydd Llun, Medi 3, yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon, yn 73 mlwydd oed bu farw Mrs Amelia E. Jones, Penrhyn House. Derbyniad y teulu ein cydymdeimlad yn eu profedigaeth hwythau.

PRIODI — Dydd Sadwrn, Medi 8, yn Eglwys Peris Sant, Nant Peris, priodwyd Alun, mab hynaf Mr a Mrs Foulkes, Tyddyn Gwndwn a Sheila merch Mr a Mrs R.H. Jones, Stryd y Faenol, Caernarfon, gynt o Dŷ Gwyn, Saron. Dymunwn y gorau iddynt eu dau yn eu cartref newydd yng Nglyn Trefor.

MERCHED Y WAWR — Nos Fercher Medi 12, yn yr ysgol decrheuodd

tymor newydd o'r gangen. Daeth Mrs Pritchard o siop Debenhams Bangor yno i roi sgwrs ar goluro. Y mis nesaf, Hydref 9, bydd Mr John Robert Williams yn dod i roi sgwrs.

Nos Wener, Medi 28, cynhelir noson goffi ynghyd â byrddau gwerthu yn y Neuadd.

YR YSGOL FEITHRIN — Mae'r trefniadau'n mynd ymlaen i sefydlu ysgol feithrin yn y neuadd; gobeithir dechrau cynnal yr ysgol ar foreau Llun a lau yn ystod mis Hydref. Os oes gan rhywun deganau mewn cyflwr da nad oes eu hangen dowch i gysylltiad â Mrs Ann Parry, Waen Deg mor fuan ag sy'n bosibl.

PLAID CYMRU — Nos Lun nesaf, Hydref 1, cynhelir cyfarfod yn y Neuadd i drefnu gweithgaredd Plaid Cymru yn y pentref am dymor y gaeaf.

Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau hen a newydd a gobeithio y ceir criw at ei gilydd i drefnu Cangen deilwng o'n Haelod Seneddol ym Methel.

CLWB Y MAMAU — Nos Wener, Hydref 12, cynhelir Ffair dan nawdd Clwb y Mamau yn y Neuadd. Bydd yr elw o'r Ffair yn cael ei ddefnyddio i anrhegu pensynwyr y pentref ar y Nadolig.

LLWYDDIANT GYDA'I GEFFYLAU Bu eleni yn dymor llwyddianhws iawn i Eifion Williams, Bryn Pistyll wrth arddangos ei geffylau. Derbyniodd y wobr gyntaf yn y deg sioe yr arddangosodd ei Stalwyn Mynydd Cymreig. Hefyd derbyniodd Eifion fedal y Merlod a Cobiau Cymreig am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Dyma lun o Eifion pan oedd yn berniadu yn sioe Llanddona yn ystod yr haf.

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

Dyddiadur y Mis

1, Llund: LLANRUG: Dosbarth Nos WEA 'Problemau Cymdeithasol a Gwleidyddol Cyfoes' yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. PEN-Y-PASS: Dosbarth Nos WEA 'Mwynfeydd Copr a Phlwm yn Eryri' yn yr Hostel Ieuencid am 7.45. LLANRUG: 'Y Majorettes' - cyfarfod cyffredinol blynyddol. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' gyda Mrs Barbara Mansel Owen ATD, yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA 'Byd Nautr' gyda Mr Arthur Vaughan Jones, B Sc yn yr ysgol am 7.15.

2, Mawrth: DEINIOLEN: Dosbarth Nos WEA 'Agweddau ar hanes Gwynedd' am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd. PENISARWAUN: Pwyllgor Eisteddfod Caernarfon yn yr Ysgol am 7.30.

3, Mercher: LLANBERIS: Clwb y Mamau. CWM-Y-GLO: Merched y Wawr.

4, Iau: CWM-Y-GLO: Dosbarth Nos WEA 'Canllawiau Ysgrifennu Creadigol' yn yr ysgol am 7.30. WAUNFAWR: Sefydliad y Merched - sgwrs gan y Dr N. Roberts. LLANBERIS: Ambiwllans Sant Ioan, - cyfarfod agoriadol dosbarth Cymorth Cyntaf yn yr Orsaf Ddan am 7.00.

5, Gwener: YR ARDAL. Clwb Eryri - y noson yng nghwmni Y Parch O.M. Lloyd. LLANBERIS: Te yr Henoed. WAUNFAWR: Dosbarth Nos

WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr ysgol am 7.00.

8, Llund: LLANRUG: Dosbarth Nos WEA am 7.00. PEN-Y-PASS: Dosbarth Nos WEA am 7.45. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA am 7.15.

9, Mawrth, LLANRUG: Merched y Wawr - sgwrs gan Mr Gwynfor Williams, Llanberis. DEINIOLEN: Dosbarth Nos WEA am 7.00.

10, Mercher, YR ARDAL: Noson Goffi a Byrddau Gwerthu yn Ysgol Brynrefail. Yr elw i Gronfa'r Ysgol.

11, Iau, CWM-Y-GLO: Dosbarth Nos WEA am 7.30.

12, Gwener: WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA am 7.00.

17, Mercher: LLANBERIS: Clwb y Mamau.

19, Gwener: LLANBERIS: Te yr Henoed. LLANRUG: Disgo, Cyw Iar a Sglodion yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Yr elw i Gronfa Pwllmoelyn.

22, Llund: LLANRUG: Dosbarth Nos WEA am 7.00. PEN-Y-PASS: Dosbarth Nos WEA am 7.45. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA am 7.00.

23, Mawrth, LLANRUG: Cyfarfod agoriadol o'r Gymdeithas Undebol. DEINIOLEN: Dosbarth Nos WEA am 7.00.

25, Iau: CWM-Y-GLO: Dosbarth Nos WEA am 7.30. WAUNFAWR: Merched y Wawr. LLANBERIS: Sefydliad y Merched.

26, Gwener: WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA am 7.00.

29, Llund: LLANRUG: Dosbarth Nos WEA am 7.00. PEN-Y-PASS: Dosbarth Nos WEA am 7.45. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA am 7.15.

30, Mawrth: DEINIOLEN: Dosbarth Nos WEA am 7.00.

DYDDIADAU I'W COFIO

TACHWEDD
21, Mercher: Prawn a Nos Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

TACHWEDD
3, Cyngerdd Capel Coch Llanberis 7.30, TELYN TEILO, HOGIA'R WYDDFA.

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

Mae Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn cynnig bron i £700 mewn gwobrau ariannol eleni. Cynnig gwobr o £100 i gôr merched neu gôr meibion neu gôr cymysg a gobeithir denu nifer sylweddol o gorau. Yn ogystal â'r gwobrau ariannol, cynnigir 15 cwpan, 4 tarian, 1 plât arian, tocynnau llyfrau, model o gadair a chadair esmwyth hefyd.

Am y tro cyntaf mae disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn cynnig medal am ddwy stori seiliedig ar fywyd ysgol er cof am y diwedd Miss Muriel Jones, un o athrawesau Cymraeg yr ysgol. Mae saith o gystadlaethau amrywiol a diddorol yn Adran Lién yr Ifanc a bydd llyfryn o'r cystadlaethau buddugol yn yr adran hon ar werth nos Wener yn union ar ôl seremoni Cadeirio a Chyflwyno'r Fedal Ryddiaith.

Cynhelir yr Eisteddfod yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, nos Wener, Tachwedd 23, a dydd Sadwrn Tachwedd 24. Cynhelir bron i gant o gystadlaethau yn cynnwys 36 o rai cerdd (6 o'r rhain yn Gerdd Dant), 19 o rai llen a bron i 30 o rai amrywiol.

Yn eisiau:

GOFALWR I GANOLFAN GYMDEITHASOL LLANBERIS

Manylion i'w cael gan y Cynghorydd Francis Jones, 3 Maes Padarn, Llanberis (Ffôn 751)

Ceisiadau i Mr Francis Jones erbyn 13 Hydref.

WIL a VAL GUY TREFLYN STORES

BETHEL


Bwydydd, Melysion, Teganau a

Diodydd ac yn awr dewis o

Diillad Plant

Y FELINHELI 670 237

CROESAIR 34



Enw _____

Cyfeiriad _____

Anfoner y cynigion fel arfer i: Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

AR DRAWS

1. Yd wedi ei falu (5)
5. Gŵr neu wraig (5)
8. Erfyn eillio (5)
9. Clawdd i gadw dŵr draw (5)
10. Dryllio (5)
11. Cyffro, cynhyrfu (5)
12. Dilyw (2)
13. Oedi neu sefyllian (7)
17. Gwaith y copyn (3)
18. Pysgodyn (3)
20. Cyfeiriad codiad yr haul (7)
24. Murmur (2)
26. Uchelwr (5)
27. Toriad dydd (5)
27. Tai bychain (5)
29. Planhigion Pigog (5)
30. Crwn (5)
31. Cymell (5)

I LAWR:

1. Cyfres o eiriau'n gwneud synnwyr (7)
2. Deall (8)
3. Dodrefnyn i gadw llestri arno (6)
4. Tynfa'r mwg (1.5)
5. Gofid (6)
6. Ymadrodd Gwlad (4)
7. Segura (5)
14. Heb wres (3)
15. Gorchuddio tŷ! (3)
16. Mae digon o rhain yn yr 'Eco' (8)
19. Twrw diwygiedig (4.3)
21. Bwgan (6)
22. Cynnal (6)
23. Pentre yn Arfon (6)
24. Ofer (5)
25. Anifail (4)

ATEBION CROESAIR RHIF 33

AR DRAWS: 1. Dweud; 5. Brawd;

ATEBION CROESAIR RHIF 33

AR DRAWS: 1. Dweud; 5. Brawd; 8. Iasol; 9. Morfa; 10. Arafa; 11. Dawns; 12. Un; 13. Llanastr; 17. Nwy; 18. Eog; 20. Ras fawr; 24. Te; 26. Alltud; 27. Anwir; 28. India; 29. Addurn. 30. Dillad; 31. Map;

I LAWR:

1. Damwain; 2. Efyrdwr; 3. Diadell; 4. Asgrwn. 5. Blasus; 6. Atal; 7. Drain; 14. Arf; 15. Acw; 16. Record dda; 19. Gwarant; 21. Siarad; 22. Astrus. 23. Rwdins; 24. Tlawd; 25. Gwyll;

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren: ch; dd; ff; ng; ll; ph; rh; th;

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.

ENILLYDD CROESAIR RHIF 33

Goronwy Lewis
18 Rhydfadog
Deiniolen

CHWARAEON

CADW ADDEWID

Mae'r hen ddadl am dîm pêl-droed gorau'r ardal wedi codi ei phen eto, a derbynias y llythyr a'r darlun a ganlyn rhyw dri mis yn ôl gan ŵr na fydd ei enwi ond sy'n adnabyddus fel un fu'n gefnogwr a gweithiwr gorau Clwb Llanberis dros gyfnod o chwarter canrif a mwy.

Addewais innau y byddent yn gweld golau dydd pan fo gofod yn caniatáu hynny, a chan iddo fy atgoffa'r Sadwrn diwethaf, dyma gadw f' addewid.

Synnais braidd, yng nghyswllt y drafodaeth ynglŷn â thimau gorau'r ardal, na fu sôn am dîm Llanberis 1964-65. Gan fod cysylltiad personol rhyngof a'r tîm, ni allaf yn deg ei gymharu â'r un arall, ond credaf ei fod yn eithriadol o dda, ac yn wir, mae'r rhai sy'n cofio'r timau blaenorol yn fy siarsio na fu'r un tebyg iddo. Os mai drwy nifer y tlysau a enillwyd y cyrhaeddid eu dyfarniad, yna pwy sydd i ddadlau â hwy.

Tîm a aeddfedodd dros gyfnod o dri tymor oedd hwn, a daeth i lawn oed 1964-65, eu hunig 'fethiant' (os gellir ei alw'n hynny) oedd ennill y cwpan lleiaf a welir yn y darlun, sef Cwpan Deanfield am fod yn ail yn y gynghrair. Ac eithro hon, enillwyd pob tîws y cystadleuwyr amdani.



Y garfan yn sefyll o'r chwith i'r dde oedd:

Gwynnaf Jones, Arwel Jones (sylwer ar ei esgidiau pigfain), Arwyn Roberts, Bruce Edwards, Ifan Owen, Arfon Roberts, Alan Jones, Llew Roberts a Bobby Haines.

Yn eistedd mae: Gwilym Williams, John Rich. Roberts, Richie Jones, Brian a Gwyn Edwards.

Y tlysau o'r chwith i'r dde:

Cwpan Penrhyn - Mountain Rangers. 3-1.

Cwpan Alves - Ferodo. 2-0.

Cwpan Amatur Gogledd Cymru - Buckley Rovers 4-1

Cwpan Iau Gogledd Cymru - Queensferry. 5-1.

Cwpan Deanfield - am fethu curo Llechid Celts yng ngêm ola'r tymor.

Sgoriodd y tîm 222 gôl yn erbyn 45, cyfartaledd o bron 5-1 am bob gêm, a llwyddodd pob aelod o'r tîm i sgorio yn ystod y tymor, hynny yw, pawb ond Ifan yn y gôl. Richie Jones rwydodd amlaf, gan godi ei sgôr personol i 65. Tîm oedd hwn ac i bob aelod ei waith arbennig ei hun, a gwyddent oll sut i wneud hynny er lles yr uned.

Ni cheisiasf ymestyn y ddadl am chwaraewr gorau'r ardal, ond ar boen rhoi'r gath ynghanol y colomenod, credaf mai Gwilym Williams, (Gwil Bach) fu'r aelod

clwb gorau. Ar wahân i ddau dymor, bu'n chwarae i Lanbêr ers 1962, ac mae'n dal ei le yn y tîm hyd heddiw. Bu'n chwarae ym mhob sefyllfa ond amddiffynnwr canolog, sgoriodd bellach dros 250 gôl i'r clwb a chasglodd 36 o dlysau dros y blynyddoedd. Gwn iddo wrthod ymuno â chlybiau Cynghrair Lloegr ddwywaith heb sôn am yr holl gynigion a ddaeth i'w ffordd o glybiau lleol."

Wel, fu 'clubman' gwell, ffyddlonach, yn yr ardal erioed? Os y bu, gadewch i mi wybod.

APÊL

Mae gwir angen ar dudalen ôl yr Eco am newyddion ynglŷn â thimau Snwcer, Dartiau, Badminton ac unrhyw gêm arall a chwaraeir yn yr ardal. Os oes unrhyw aelod o glwb, neu gymdeithas leol, a hoffai gasglu'r esgyrn sychion am eu gweithgareddau'n fisol, buasai'r Golygydd Chwaraeon yn falch o'u derbyn yn: Sycharth, Bryn Eglwys, Penisarwaun.

CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL

Yn ddiweddar bu tîm Sgîo'r ysgol, dan arweiniad Mrs M. Wroe yn fuddugol am yr ail flwyddyn yn olynol yng nghystadleuaeth Cwpan Arnold i Ysgolion Gogledd Cymru. Bu 30 o dimau'n ymgiprys am y Tlws ar lechwedd sych Plas y Brenin, a'r tîm buddugol oedd: Robina a Kirsty Mc Ann, Timmy Lloyd, Zoe Brown, Mandy Curston, David Glass, Alice a Mary Walton, Martin Williams, Margaret Roberts, Mathew Anthoine a Chris Wager.

Llongyfarchiadau iddynt, a hefyd i dîm Criced dan 14 oed yr ysgol ar gyrraedd rownd derfynol Tlws Ysgolion Gwynedd eto, am yr ail flwyddyn yn olynol. Colli o un wiced i Ysgol Dyffryn Ogwen, fel y llynedd fu eu hanes. James Spry a sgoriodd fwyaf o rediadau

a Dafydd T. Pritchard oedd y bowliwr mwyaf llwyddiannus.

Bu Euryn Owen o Ddeiniolen a Dylan Williams o Lanrug yn chwarae i dîm Criced Bethesda yn ystod yr haf, a'r ddau'n cael hwyl dda arni. Bu'r ddau hefyd, ynghyd â David J. Brailsford a Carl Wannop yn chwarae i dîm Ysgolion Gwynedd yn erbyn Dyfed yn rownd derfynol cystadleuaeth ysgolion Cymru. Gresyn na fyddai tîm lleol iddynt feithrin eu dawn ynddo yntê?

Oherwydd y cwtoegi, 'does dim arian ar gael eleni i logi bwsiau ar gyfer chwarae yn erbyn ysgolion eraill, ac o'r herwydd bydd llawer llai o gemau yn cael eu chwarae, gan y bydd yn rhaid i'r plant dalu eu hunain am bob taith a wneir

PÊL-DROED

LLANRUG

Wyth bwynt allan o ddeg oedd casgliad y mis i Lanrug, a gan fod Hiracl, y dylent fod wedi chwarae yn eu herbyn y Sadwrn diwethaf yn ail ymgiprys am eu lle yn ail rownd Cwpan Iau Gogledd Cymru cafodd nifer o'r chwaraewyr gyfle i daro llygad ar 'fform' Llanberis. Trechwyd y Felinheli (da y rhain, gyda llaw, am Gymreigio'r Clwb; fel CPD [Clwb Pêl-droed] Y Felinheli eu hadnabyddir bellach), Talysarn, Bangor Athletic a Nefyn ond daeth sioc iddynt yn neng munud ola'r gêm yn erbyn Caernarfon Res.

Ar ôl bod 2-1 ar y blaen sgoriodd y Cofis deirgwaith i chwalu record Llanrug.

Bydd *pulovers* arbennig ar gyfer aelodau a chefnogwyr y clwb ar gael cyn y Nadolig, gyda'r enw a'r arwyddair arnynt. Os am archebu un fel anrheg Nadolig i'r gŵr/wraig/taid/nain yna cysyllter â Dafydd W. Thomas, Bron y Nant, mor fuan ag sy'n bosibl.

Trefnwyd tri disgo hefyd ar gyfer yr aelodau a'u cyfeillion, y cyntaf nos Sadwrn 29 o Fedi yn y Vic, Llanberis, a noson dan nawdd y clwb yn yr Ysgol Gynradd ar Dachwedd 29.

NODYN TRIST

Bu'n rhaid i Glwb Llanrug ymddiswyddo o Gynghrair Gwryfai am nad oedd neb yn fodlon gofalu am y bechgyn dan 15 oed. Gwanethpwyd apêl yn y wasg ond siomedig fu'r ymateb.

Mae'r clwb yn gofalu am ddilladu'r tîm, a 'does dim gwaith codi arian, y cwbl sydd ei angen yw person i gysylltu â Swyddogion y Gynghrair a nifer fechan i'w cludo i'r gemau oddi cartref.

Mae'n rhy hwyr eleni, ond gobeithio y dengys rhywun ddiddordeb erbyn y tymor nesaf neu bydd y bechgyn hyn unwaith eto'n cael eu hamddifadu o gêm bêl-droed.

PWY 'DI'R RHAIN?



Gwybodaeth os gwelwch yn dda, pwy? 'pryd? - Castell Bryn Bras sy'n y cefndir.